

Agenda – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Manon George
Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022	Clerc y Pwyllgor
Amser: 08.45	0300 200 6565
	SeneddTai@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (08.45 – 09.00)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
- 2 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 5 – y Gymraeg**
(09.00 – 10.00) (Tudalennau 1 – 63)
Ruth Richards, Prif Weithredwr, Dyfodol i'r Iaith
Mabli Siriol Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith
Lowri Williams, Uwch-swyddog Polisi, Comisiynydd y Gymraeg
Yr Athro Rhys Jones, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol
Aberystwyth
Break (10.00 – 10.10)
- 3 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 6 – perchenogion ail gartrefi**
(10.10 – 10.40) (Tudalennau 64 – 79)
Jonathan Morrison, yn cynrychioli grŵp Home Owners of Wales
Break (10.40 – 10.50)
- 4 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 7 – landlordiaid a grwpiau cymunedol**
(10.50 – 11.50) (Tudalennau 80 – 114)
Keith Henson, Hwylusydd Tai Gwledig, Barcud
Ffrancon Williams, Prif Weithredwr, Adra
Shan Lloyd Williams, Prif Weithredwr, Grŵp Cynefin
Karen Holt, Partneriaeth Tai Bro Machno



Douglas Haig, Cyfarwyddwr Anweithredol, Cymdeithas Genedlaethol y
Landlordiaid Preswyl

5 Papurau i'w nodi

(Tudalen 115)

5.1 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

(Tudalennau 116 – 118)

5.2 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Offerynnau Statudol a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

(Tudalennau 119 – 121)

5.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch LCM y Bil Etholiadau

(Tudalennau 122 – 123)

5.4 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau ynghylch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

(Tudalennau 124 – 153)

5.5 Llythyr gan Cladiators Cymru ynghylch diogelwch tân

(Tudalennau 154 – 157)

5.6 Llythyr gan Teithio Ymlaen mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

(Tudalennau 158 – 160)

5.7 Llythyr gan Brif Weithredwr Senedd Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch defnydd o'r acronym B.A.M.E. gan Gomisiwn y Senedd

(Tudalennau 161 – 162)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7 Ymchwiliad i ail gartrefi – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2, 3 a 4.

8 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar gyfer y Bil Diogelwch Adeiladau.

(12.00 – 12.15)

(Tudalennau 163 – 167)

9 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Diogelwch Adeiladau

(12.15 – 12.30)

(Tudalennau 168 – 176)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



DYFODOL I'R IAITH

SYLWADAU AR GYFER:

YMCHWILIAD I AIL GARTREFI

PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

Ionawr 2022

Cyswllt:

Ruth Richards

Prif Weithredwr

Dyfodol i'r iaith

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Croesawn y cyfle hwn i rannu ein sylwadau ar ail gartrefi gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Cefndir: Adroddiad Dr Simon Brooks, Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru

Cytunwn â, a byddwn yn argymhell holl ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn. Cytunwn â Dr Brooks fod angen mynd i'r afael â'r broblem drwy gyfuniad o bolisïau cynllunio uniongyrchol, anuniongyrchol a pholisïau trethiannol.

Byddwn yn pwysleisio'r angen brys i weithredu Argymhelliad 12, sef, "sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol." Byddai hyn yn fodd i sefydlu'r cyswllt hollbwysig rhwng polisi tai a strategaeth y Llywodraeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Sylwadau Dyfodol i'r iaith

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn ymgynghori ar hyn o bryd ar nifer o ddewisiadau polisi ar sut i leihau nifer tai gwyliau ac ail gartrefi mewn cymunedau Cymraeg. Heb os nac oni bai, dyma un o'r bygythiadau mwyaf i'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chredwn y byddai colli'r cyswllt hanfodol rhwng iaith a chymuned yn cynrychioli ergyd i'r Gymraeg a holl ymdrechion y Llywodraeth i'w hadfywio. Afraid dweud bod hon yn sefyllfa sydd, i bob pwrpas, yn gwadu cartrefi i bobl leol yn eu cymunedau eu hunain ac felly'n ergyd yn erbyn cyfiawnder cymdeithasol yn ogystal.

Wrth bwysleisio drachefn yr angen i fwrw ymlaen gydag argymhellion Dr Brooks, nodir isod ein sylwadau pellach fel mudiad ynglŷn â gweithredu ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Cynigir hefyd gynllun arfaethedig er mwyn sicrhau modd i'r diwydiant ymwelwyr allu cyfrannu'n uniongyrchol at anghenion tai ac economaidd y cymunedau rheiny sydd dan gymaint o fygythiad yn sgil ail gartrefi.

Nodwn yn ogystal bod rhaid i'r Llywodraeth weithio'n draws adrannol a thraws bwyllgorol er mwyn sicrhau'r canlyniadau cadarnaf posib mewn perthynas â sefyllfa mor gymhleth a dyrys.

1 Angen Buddsoddi

Er mwyn mynd i'r afael o ddifrif ag argyfwng cartrefi mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymdeithasol fyw, bydd angen buddsoddi cyhoeddus sylweddol. Un o brif achosion yr argyfwng yw'r pwysau allanol, sef gallu pwrcasu cryfach pobl o ganolfannau trefol (yn Lloegr yn bennaf). Adlewyrchiad yw hyn yn ei dro o anghyfartaledd ffyniant economaidd.

Rhaid cyfaddef bod y galw ar y pwrs cyhoeddus o amryw gyfeiriadau yn drwm ac y bydd y realiti hyn yn parhau. Mae Dyfodol i'r iaith yn argymhell dull newydd* o ddefnyddio'r diwydiant ymwelwyr i greu ffrwd incwm ychwanegol i'w defnyddio'n bennaf er mwyn darparu cartrefi i bobl leol ond hefyd i rai datblygiadau eraill.

2 Ffynhonnell Newydd o Gyllid

Mae Dyfodol felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i glustnodi £200mn o gyfalaf i'w wario'n bennaf yn yr ardaloedd gorllewinol (Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro a Chaerfyrddin) lle mae argyfwng tai ar ei fwyaf dwys a'r effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg i'w theimlo gryfaf. A siarad yn fras, fe alluogai hyn i 800 o gartrefi gael eu prynu neu eu hadeiladu.

Byddai'r tai yma'n cael eu defnyddio mewn dwy ffordd

- Cyfran yn **gartrefi cymdeithasol** i ateb y galw lleol, gyda opsiwn rhan-berchnogaeth i'r rhai a ddymunai hynny
- Cyfran yn **dai gwyliau** mewn perchnogaeth gyhoeddus

Byddai'r elw o'r ail gategori yn cael ei ddefnyddio i greu cronfa i sybsideiddio'r cartrefi cymdeithasol a/neu i hyrwyddo datblygiadau o fudd i'r gymdeithas leol ac i'r rhanbarth gorllewinol yn gyffredinol.

Cwestiwn i'w benderfynu yw pa gorff a fyddai'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith yma. Mae'r posibilïadau yn cynnwys

- Consortïwm o'r siroedd perthnasol
- Prosiect Arfor, sydd i'w ddatblygu ymhellach dros y blynyddau nesaf
- *Unnos*, y corff y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei sefydlu maes o law i ddarparu tai

Yn y dyfodol, gellid ystyried trosglwyddo'r stoc dai yma i berchnogaeth cwmnïau cymunedol, fel y trosglwyddwyd stoc tai cyngor i gymdeithasau tai ond yn y tymor byr a chanolig mae'n bwysig rheoli'r cynllun gan y sector cyhoeddus.

Gweithredu Prydlon

1 Rydyn-ni'n galw ar LIC i gomisynu astudiaeth fanwl, a hynny ar frys, i botensial ac agweddau ymarferol y bras-gynllun uchod. Dylai fod modd cyhoeddi canlyniadau astudiaeth o'r fath erbyn Pasg 2022 er mwyn symud ymlaen wedyn i'w roi mewn gweithrediad

2 Yn y cyfamser, mae'n bwysig peidio gohirio. Tra bod y syniad yn cael ei archwilio a than iddo ddwyn ffrwyth, dylid darparu adnoddau digonol i awdurdodau lleol ymyrryd yn y farchnad, drwy brynu ac adnewyddu neu godi tai newydd fel sy'n addas.

3 Rydyn-ni'n llwyr gefnogol i argymhellion adroddiad Simon Brooks ac yn edrych ymlaen at weld eu gweithredu'n llawn.

Nodyn

*Lansiwyd y syniad y llynedd mewn erthyglau gan Cynog Dafis yn *Golwg* a'r *Western Mail* – (gweler yr Atodiad isod). Yn dilyn hynny, cafwyd ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn eu hystyried

Atodiad 1

Troi Tai Gwyliau yn Ased Cymreig

Daeth yr argyfwng cartrefu yn y Fro Gymraeg yn destun trafod tanllyd a'r galw am weithredu effeithiol i'w thaclo yn daer. Gadewch i ni'n atgoffa'n hunain o rai o elfennau'r argyfwng.

- Incwm isel cyfartalog pobl leol yn peri eu bod yn cael eu prisio allan o'r farchnad
- Nifer cynyddol o dai yn mynd yn ail gartrefi – ar y cyfan i bobl o ganolfannau trefol
- Gwanhau economïau a hoen cymunedol
- Gwanhau'r Gymraeg drwy broses o ddisodli'r boblogaeth frodorol
- Rheolaeth ar y diwydiant ymwelwyr a'r elw ohono yn cael eu sugno allan o ddwylo pobl a chymunedau lleol

O'r diwedd cafwyd cyfres o flaengareddau gan awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r broblem: codi treth uwch ar ail gartrefi; codi cartrefi cymdeithasol a chyfran uwch o dai "fforddiadwy"; prynu tai gan Gyngor Gwynedd i'w gosod i bobl leol; galw am yr hawl, drwy ddeddfwriaeth gynllunio, i gyfyngu ar y gyfran o ail gartrefi mewn ardaloedd penodol. Gall fod blaengareddau o'r fath yn werthfawr. Fy marn i serch hynny yw bod eisiau meddwl yn fwy strwythurol-radical o'r hanner.

Dyma awgrym ynghylch sut i wneud hynny gan gipio elfen o reolaeth ar ac elw o'r diwydiant ymwelwyr i gymunedau lleol a diwallu anghenion eu trigolion ar yr un pryd.

Yr allwedd yw cael gafael ar gymaint â phosibl o'r elw sylweddol digamsyniol sy'n cael ei wneud o gartrefi gwyliau, i'w ddefnyddio i ddarparu cartrefi i bobl leol ac i ddibenion cymunedol eraill. Byddai'n gweithio fel a ganlyn:

Byddai corff cyhoeddus neu gymunedol yn pwrcasu eiddo (a'i adnewyddu yn ôl yr angen) ac yna'n gosod cyfran o'r unedau yn dai gwyliau a chyfran yn dai cymdeithasol i bobl leol. Byddai'r elw o'r tai gwyliau yn sybsideiddio'r tai cymdeithasol (gan gofio bod prynu ac adnewyddu am amryw resymau yn ddrutach na chodi tai newydd).

Dychmygwch dŷ tair ystafell-wely yn cael ei brynu am £200,000 (y cyfartaledd Cymreig ar hyn o bryd). Mae rhent wythnosol tŷ felly yn gartref cymdeithasol oddeutu'r £90. Dros flwyddyn dyna £4,680. Mae tŷ felly (byngalo dymunol ond digon diddychymyg) ar arfordir Ceredigion yn codi rhent o £500 yr wythnos. Dros 40 wythnos (dyweder) y flwyddyn, dyna £20,000.

Ffigyrau crynswth amrwd ac anghyflawn wrth gwrs. Rhaid ystyried amrywiol orbenion, treth y cyngor, taliadau morgais, adnewyddu, cost cynnal-a-chadw ac ati ac i dŷ gwyliau gost marchnata a llogi a glanhau wythnosol. Ar y llaw arall gallai fod elfen o gymhorthdal cyhoeddus a/neu fuddsoddi cymunedol yn briodol. Bid a fo am hynny mae'r gwahaniaeth o ran elw rhwng y ddau fath o weithgarwch yn fawr a'r cyfle i groes-sybsideiddio yn amlwg.

Pa fath o gorff neu gyrff a allai wneud hyn? Dyma rai posibiliadau:

- Awdurdodau lleol, yn unigol neu'n gonsortïwm, i sefydlu is-gwmni i'r perwyl

- Cymdeithasau Tai i wneud yr un modd.
- Cwmnïau cymunedol nid-er-elw, naill ai o'r cychwyn neu i awdurdod cyhoeddus drosglwyddo stoc iddyn maes o law
- Arfor, prosiect ar-y-cyd rhwng siroedd y gorllewin y mae sôn am ei ail-greu yn asiantaeth ddatblygu go-iawn, i greu is-gwmni.

Byddai rhaid dechrau'n fach a thyfu'n raddol yn y lle cyntaf, ond pam na ddylai corff cyhoeddus/ cymunedol o'r fath dyfu'n sector sylweddol a dylanwadol? Ystyriwch y manteision yma

- Defnyddio cyfran o'r stoc tai i drigolion lleol yn lle cynyddu'r stoc yn barhaus mewn ardal lle mae gormodedd o dai sy'n bod i ateb y galw lleol
- Cadw tir glas yn las a'i ddefnyddio i arddwriaeth neu yn gynefin naturiol neu'n gyfleustra hamdden
- Uwchraddio stoc tai sy'n bod o ran ansawdd, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddol graddfa-fach
- Cymryd meddiant cymunedol a chipio'r elw o adran bwysig o'r diwydiant ymwelwyr
- Defnyddio crefftwyr lleol i adnewyddu eiddo a lleihau gafael y datblygwyr masnachol mawr ar y farchnad.

Mae angen gwaith dadansoddi a modelo sylweddol i archwilio ymarferoldeb y syniad rwy'i wedi'i fras-amlinellu. Beth am fynnu ymrwymiad gan y pleidiau gwleidyddol wrth iddyn-nhw baratoi eu polisiau erbyn etholiad Senedd Cymru o leiaf i gomisiynu astudiaeth ar frys? Neu beth am i ryw awdurdod lleol fwrw ati wneud hynny rhag blaen?

Cynog Dafis Chwefror 2021.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol ar Ail Dai Cymdeithas yr Iaith Ionawr 2022

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi pwysu ers blynyddoedd am fynd i'r afael ag effaith ail dai a'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymru a'r Gymraeg oherwydd problemau sylfaenol y farchnad tai. Am hynny rydym yn falch o weld camau'n cael eu trafod, ond hoffem weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach.

Rydym yn pryderu am rai sylwadau yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad *Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru*:

"rydym am sicrhau y gall pob perchennog ail gartrefi wneud cyfraniad teg i'r cymunedau y maent yn prynu eiddo ynddynt."

Mae'r gosodiad yn awgrymu fod derbyn y bydd nifer uchel o ail dai yn anochel ac mai dim ond lliniaru effaith ail dai ar gymunedau fydd.

Mae allfudiad o Gymru, ac o ardaloedd gwledig yn neilltuol, yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Gymraeg, gyda 5,200 o siaradwyr Cymraeg yn gadael Cymru bob blwyddyn. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn bobl ifanc, sy'n hyderus yn y Gymraeg. Bu i 20% o bobl ifanc Ceredigion adael y sir o fewn blwyddyn; nid yw hyn efallai'n syndod o ystyried bod prisiau tai yn tua deg gwaith cyflog cyfartalog yn y sir. Yr un yw'r stori mewn nifer o siroedd eraill.

Mae'n glir bod pobl y tu allan i'r ardaloedd yn prynu eiddo i'w ddefnyddio fel tŷ haf personol neu i'w rentu fel llety gwyliau a bod hyn yn gyrru prisiau i fyny y tu hwnt i afael trwch y poblogaeth leol. Mae hyn hefyd wedi arwain at brinder llety i'w rentu ac mae'n gyfrifol am daflu tenantiaid o'u cartref, heb iddynt wneud dim o'i le, fel bod y landlord yn gallu gwerthu'r eiddo, ei osod fel llety gwyliau neu ei droi'n AirBnB, sydd yn fwy deniadol na rhentu i denant sefydlog drwy'r flwyddyn gan nad yw llety AirBnB yn cael ei reoleiddio ac nad oes oes safonau diogelwch ac ati yn cael eu gosod arnynt.

Maent yn fwy deniadol yn ariannol hefyd gan fod modd manteisio ar y farchnad dwrsitaidd a gofyn pris uwch am lety AirbnB gan ymwelwyr nag y byddai rhywun ar denant hir dymor.

Mae cryn anniddigrwydd ynglŷn â'r cynnydd yn nifer yr ail gartrefi, yn enwedig gan nad yw pobl leol yn gallu prynu tŷ. Mae'n arwyddocaol bod y nifer o bobl ar y rhestr aros am dai cymdeithasol bron yn cyfateb i'r nifer o dai haf yn Sir Benfro er enghraifft. Mae'n fater o anghyfiawnder sylfaenol bod rhai pobl yn meddu ar fwy nag un tŷ tra bod eraill yn methu cael cartref o gwbl.

Rhaid cofio mai dim ond rhan o'r problem yw ail dai, a bod angen ymdrin â holl broblemau cysylltiedig ein system tai a chynllunio sy'n golygu nad yw pobl yn gallu fforddio cartref o safon yn eu cymuned, yn dinistrio cymunedau ar draws y wlad ac yn bygwth dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ein system tai a chynllunio, mae Cymdeithas yr Iaith yn galw ar Lywodraeth Cymru i

Gymryd camau brys, gan gynnwys:

- Cyflwyno treth ar dwristiaeth a buddsoddi'r arian a godir mewn cymunedau lleol
- Cyflwyno uwch-dreth ar ail dai ac ar elw landlordiaid i fuddsoddi mewn dod â thai gweigion ac ail dai yn ôl i ddefnydd cymunedau lleol
- Rheoleiddio AirBnB a chyflwyno treth ar dai sy'n cael eu gosod trwy AirBnB
- Cau mannau gwan a bylchau yn y gyfraith sy'n caniatáu i bobl osgoi trethi

- Ei wneud yn ofynnol i wneud cais cynllunio am newid dosbarth tŷ o fod yn gartref parhaol i ail gartref neu lety gwyliau, yn cynnwys AirBnB
- Cyflwyno gwaharddiad parhaol ar droi allan di-fai a chryfhau hawliau tenantiaid
- Cyflwyno graddfeydd uwch o Dreth Trafodiadau Tir ar eiddo a brynir fel ail dai neu lety gwyliau
- Diwygio'r cynllun Cymorth i Brynu er mwyn canolbwyntio ar helpu pobl ar gyflogau arferol a'u galluogi i brynu tai sydd eisioes yn eu cymunedau, nid dim ond tai newydd mewn stadau ar y cyrion

Gyflwyno Deddf Eiddo fydd yn cynnwys:

- Gosod cap ar ganran yr ail dai neu dai haf mewn unrhyw gymuned
- Sicrhau bod tai gwag a thai presennol yn cael eu defnyddio cyn datblygu o'r newydd
- Newid y diffiniad o dai fforddiadwy a rheoli prisiau tai a rhent fel eu bod yn fforddiadwy i bobl ar incwm isel a chyflogau lleol
- Cyfarwyddiadau mwy cadarn ac eglur ar gynnal asesiadau effaith iaith
- Datganoli grymoedd cynllunio, gan gynnwys gosod targedau tai, i'r lefel fwyaf lleol sy'n briodol, a gwneud cynllunio ieithyddol yn orfodol er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach na negyddol
- Rhoi cymorth penodol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau

Yn ogystal, galwn am:

- Ddychwelyd y stoc dai cymdeithasol yn ôl i ddwylo cyhoeddus, a sicrhau bod y mwyafrif o dai newydd mewn dwylo cyhoeddus
- Ddatblygu cynllun strategol ar gyfer tai a thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig

O edrych ar argymhellion adroddiad *Ail gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru* fesul un:

Argymhelliad 1 – datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus

Nid ydym yn cytuno mai problem ranbarthol yw hon, er ei bod yn effeithio rhai ardaloedd yn fwy nag eraill.

Mae ardaloedd yn y gogledd ddwyrain nad ydyn nhw'n dwristiaid, ond am eu bod yn agos at y ffin yn cael eu troi yn drefi i gymudwyr, sydd yn bwy yno yn ystod yr wythnos cyn dychwelyd i'w 'prif' gartref ar gyfer penwythnosau.

Cytunwn fod angen hyblygrwydd rhanbarthol, a hyd yn oed hyblygrwydd o fewn rhanbarth. Mae ardaloedd o Abertawe, er enghraifft, yn ddibynnol ar y sector twristiaeth ac mae ail dai a thai haf yn broblem yno, tra bod problemau tai gwahanol yn yr ardaloedd mwy dinesig.

Argymhelliad 2 – rheoli niferoedd ail gartrefi

Cytunwn gyda'r argymhelliad hwn. Credwn y dylai fod gan Awdurdodau Cynllunio y gallu i osod cap ar ail dai a lety gwyliau a bod hyblygrwydd ganddyn nhw i amrywio'r cap o fewn eu hawdurdod.

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi

Mae ail dŷ wedi ei ddiffinio eisoes yn *Adroddiad Ymchwil ar Ail Gartref a Chartrefi Gwyliau a'r System Gynllunio Defnydd Tir* gan Mark Tewdwr-Jones, Nick Gallent ac Alan Mace (a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2002) -

“Ail gartref: annedd a ddefnyddir gan ei berchennog a hwyrach gan ymwelwyr eraill ar gyfer hamdden a dibenion gwyliau ac nad yw’n fan preswyllo parhaol i’r perchennog...”

Credwn fod y diffiand hwn yn ddigonol, ac mynd ati i fynd i’r afael ag effaith ail dai a thai gwyliau sydd ei angen.

Argymhelliad 4 – ymateb i Brexit a Covid-19

Cytunwn â sylwadau Simon Brooks am effaith Brexit a Chofid 19 ar werthiant ail dai.

Rydyn ni eisoes yn gweld bod papurau newydd Llundainig yn hysbysebu Cymru fel lle delfrydol i brynu ail dŷ; daeth hyn fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd diweddar.

Nid peth newydd yw ail dai a thai gwyliau yng Nghymru wrth gwrs, mae’n broblem i’r Gymdeithas ac eraill dynnu sylw ati ers degawdau, ond mae gwerthiant tai yn symud ar-lein ac adroddiadau rheolaidd am dai mewn ardaloedd gwledig yn cael eu prynu heb i’r perchennog newydd ymweld â’r ardal, heb sôn am y tŷ ei hun. Cyfrannu at a dwysau’r y broblem mae Brexit a Covid.

Er hynny tystiolaeth anecdotaidd sydd am hyn yn bennaf. Mae’r Llywodraeth yn bwriadu creu Fforwm Asiantaethau Tai, awgrymwn felly bod edrych ar ffigyrau pryniant ail dai dros y 10-15 mlynedd ddiwethaf yn hynod ddefnyddiol fel bod ystadegau i gefnogi’r canfyddiadau.

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Er ein bod ni o blaid codi trethi ar ail dai mae mannau gwan amlwg. Rhaid i drethi newydd fod yn rhan o ymateb holistaidd i’r problemau yn y farchnad dai.

Argymhelliad 6 – Premiwm y Dreth Gyngor Leol

Bu’r Gymdeithas yn galw am hyn ers blynyddoedd, ac yn falch o weld ei gyflwyniad fel rhan o’r Deddf Cynllunio 2015. Rydym yn awyddus i weld cynyddu trethi ymhellach, hyd at 200%. Rydym hefyd yn awyddus i weld cynghorau’n defnyddio eu pwerau yn llawn. Er mwyn sicrhau bod hyn yn effeithlon, bydd angen hefyd atal pobl rhag cofrestru ail dai fel busnesau er mwyn osgoi treth cyngor.

Mae nifer o gynghorau wedi penderfynu buddsoddi’r arian a godir i gynlluniau tai fforddiadwy neu gymdeithasol. Mae hynny i’w gymeradwyo, a byddem yn falch o weld yr holl awdurdodau lleol yn buddsoddi’r arian yn y fath fodd.

Credwn hefyd fod angen mesurau ehangach na threthi, fel rhoi’r gallu i Awdurdodau Lleol osod cap ar nifer yr ail dai.

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes

Cytunwn gydag eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.

Croesawn ymgynghoriad presennol y Llywodraeth i reoleiddio’r sector llety gwyliau. Dylid gosod disgwyliadau ar berchnogion tai gwyliau/ail dai i gael trwydded yn yr un modd â landlordiaid preifat a hysbysu’r awdurdod am eiddo sy’n wag am yn hirach na thri mis er mwyn i’r awdurdod lleol gadw cofnod o nifer a lleoliad tai gwag yn yr ardal.

O wybod am unrhyw angen am dai rhent i bobl leol, tra bod tai gwyliau, ail dai neu dai gwag mewn lleoliad addas i ddiwallu’r angen neu fod canran sylweddol o stoc dai’r gymuned yn dai gwyliau ac

ail gartrefi dylai fod gan awdurdod lleol y gallu i fynnu bod rhai tai gwyliau, ail gartrefi a thai gwag yn cael eu gosod i bobl leol drwy'r flwyddyn am rent rhesymol. Dylai Awdurdodau Cynllunio allu gosod cap ar ail dai a llety gwyliau hefyd, a dylai fod hyblygrwydd ganddyn nhw i amrywio'r cap o fewn eu hawdurdod.

Credwn fod angen mesurau tebyg i'r uchod yn ogystal â mesurau i osod trethi.

Argymhelliad 8 – Treth trafodiadau tir

Credwn y dylai fod gan Awdurdodau Lleol fwy o rymoedd dros gynllunio felly byddem o blaid dirprwo hawl i gynghorau sir amrywio swm y dreth trafodiadau tir ac y dylai fod gan y Awdurdodau Lleol yr hawl a'r gallu i amrywio'r cyfraddau o fewn yr Awdurdod hefyd.

- i. Gallai Llywodraeth Cymru ddirprwyo i gynghorau sir hawl i amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, gan greu'r potensial i ychwanegu cyfradd bellach at y dreth o hyd at 4% o werth yr ail eiddo mewn rhai rhannau o Gymru.
- ii. Neu, gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn y dull hwn mewn wardiau llywodraeth leol penodol yr effeithir arnynt yn ddwys gan y broblem ail gartrefi.

Argymhelliad 9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn

Dylai'r Cynllun Tai Marchnad Lleol fod yn berthnasol i dai sydd yn dod ar y farchnad, nid yn unig tai newydd. O fod yn berthnasol i dai newydd yn unig mae'n bosibl y byddai pobl leol yn dymuno adeiladu neu brynu tŷ newydd. Byddai'r tŷ mae'n nhw'n ei werthu ar gael ar y farchnad agored, felly does dim sicrwydd y bydd y polisi, fel ag y mae, yn mynd i'r afael â'r broblem.

Rydyn ni hefyd o'r farn bod dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn bwysicach nag adeiladu o'r newydd, felly byddai rhoi cymorth a chymhelliant i adnewyddu tŷ gwag dan amodau tebyg i Tai Marchnad Lleol yn fwy cynaliadwy.

Rydyn ni hefyd yn argymhell diffiniad mwy caeth o 'berson lleol':

Band 1 ("y band lleol")

Person sydd wedi byw neu weithio yn yr ardal am gyfnod o 10 mlynedd (allan o'r 20 mlynedd diwethaf). Golyga hyn fod rhaid ei fod wedi preswyllo o fewn naill ai yr un plwyf neu gymuned lleol (â'r eiddo dan sylw), neu yr un ardal teithio-i-waith, neu o fewn deng milltir i safle'r eiddo.

Band 2 ("y band lled-leol")

- a. Person sydd wedi derbyn swydd barhaol, amser llawn yn yr ardal (yn ôl y diffiniad uchod).
- b. Person sydd wedi byw yn yr ardal (gweler uchod) am o leiaf deng mlynedd yn ystod ei oes.

Rydyn ni'n derbyn wrth gwrs bod angen ystyried sefyllfa pobl fregus, ac y byddai modd eu cynnwys nhw yn y diffiniadau uchod.

Dim ond os nad yw criteria Band 1 a 2 yn cael eu cyrraedd y dylid ymestyn y tu hwnt i'r dref/pentref i'r sir ehangach.

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Argymhelliad 11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Mae'r Gymdeithas yn galw am greu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail dai a thai gwyliau ar draws Cymru, er mwyn osgoi symud y broblem i ardal arall, ac yn croesawu'n fawr iawn y cynnig i greu dosbarthiadau C5 a C6 ar gyfer ail dai / tai gwyliau. Mae'r dwysedd a nifer o ail dai mewn cymunedau ar draws Cymru wedi arwain at gynnydd ym mhrisiau tai, fel nad oes modd i bobl leol aros yn eu hardaloedd. Mae'n werth nodi bod nifer o alwedigaethau - athrawon a nyrsys er enghraifft - yn ei chael hi'n anodd aros yn eu hardaloedd oherwydd hyn ac o ganlyniad mae'r problem yn dwysáu trafferthion Llywodraeth Cymru wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r fath rolau er mwyn gwella gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Mae hi hefyd yn fater o degwch sylfaenol bod pobl yn gallu prynu cartref yn leol ar gyflog lleol. Mae'r sefyllfa gydag ail dai ac anallu pobl leol i fforddio cartref hefyd wrth gwrs yn gyrru allfudiad ac yn effeithio'n ofnadwy ar seiliau cymunedol y Gymraeg yn gyffredinol.

Byddai creu dosbarth defnydd newydd yn caniatáu i awdurdodau cynllunio reoli'r dwysedd a nifer y tai haf mewn unrhyw ardal, trwy osod trothwyau ac ati yn eu cynlluniau datblygu lleol.

Mae'n werth nodi bod dosbarth ychwanegol ar gael ar dai aml-feddiant yn barod, ar gais trefi prifysgol ac felly ni fyddai cyflwyno dosbarth cynllunio ar wahân yn rhywbeth newydd.

Mae hi hefyd yn anodd i gynghorau amcangyfrif faint o anheddau preswyl sydd eu hangen mewn unrhyw ardal os yw'n bosibl newid llety preswyl yn ail dŷ / tŷ gwyliau heb ddosbarth defnydd ar wahân,

Fodd bynnag, rydym yn pryderu nag yw'r ffordd arfaethedig o weithredu'r polisi yn cyflawni amcanion y polisi. Trwy'r angen i gyflwyno erthygl 4 mewn ardaloedd ar raddfa ficro mae'n cymhlethu'r system ac yn gwneud cynghorau'n llai tebygol o weithredu. Hefyd mae'r argyfwng yn dwysáu yn hynod gyflym mewn nifer o gymunedau, ond o dan y drefn arfaethedig dim ond lle gall awdurdod cynllunio brofi bod difrod sylweddol i'r gymuned yn barod y caniateir erthygl 4. Erbyn i erthygl 4 ddod i rym ac erbyn i hyn cael ei hystyried wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf, gall y nifer o ail dai mewn cymuned godi i lefelau sylweddol. Yn gryno, mae'r drefn arfaethedig yn ymateb pan mae hi efallai'n rhy hwyr yn hytrach na chaniatáu i awdurdodau cynllunio weithredu'n rhagweithiol i warchod cymunedau cyn ei bod yn rhy hwyr.

Argymhellwn yn gryf iawn na ddylai newid defnydd o C3 i C5/C6 fod yn ddatblygiad a ganiateir unrhyw le yng Nghymru.

Argymhelliad 12 – sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

Nid ydym o'r farn bod angen sefydlu Comisiwn newydd i ystyried dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae eisoes gan y Llywodraeth, ynghyd ag asiantaethau allanol eraill yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gyfrifoldeb dros y maes hwn a mynediad at ffynonellau tystiolaeth eang ac arbenigedd polisi ymysg unigolion a sefydliadau. Yn ogystal, pwysleisiwn y dylai unrhyw waith ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol gymyrd golwg Cymru-gyfan.

I gloi, nodwn mai ymchwiliad i ail dai yw hwn, ond hoffem bwysleisio nad yw problemau tai wedi eu cyfyngu i ail dai mewn ardaloedd twristaidd. Y ffordd i sicrhau cartref i bawb a chymunedau cryf, Cymraeg ym mhob rhan o'r wlad yw trwy gyflwyno Deddf Eiddo.

Mae'n hargymhellion ni ar gyfer Deddf Eiddo i'w gweld yn *ein dogfen Cartrefi Fforddiadwy i Bawb*

Yr achos dros ddeddfwriaeth eiddo:

<https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/cartrefi.pdf>

Gweler hefyd rhagor am ein galwadau ar gyfer tymor y Senedd hwn yn *Mwy na miliwn - dinasyddiaeth Gymraeg i bawb*

<https://cymdeithas.cymru/mwynamiliwn>

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddTai@senedd.cymru

14 Ionawr 2022

Annwyl Mr Griffiths,

Ymchwiliad i ail gartrefi

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymchwiliad uchod. Mewn llythyr gan fy swyddfa at y Pwyllgor dyddiedig 16 Gorffennaf 2021 mynegwyd ein pryder mawr am yr argyfwng ail dai mewn nifer o gymunedau Cymraeg ar draws Cymru. Rydym yn falch o weld y Pwyllgor yn mynd i'r afael â'r mater mor fuan yn ei raglen waith.

Testun cyntaf yr ymchwiliad yw adroddiad Simon Brooks, *Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru*, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion.

Ers cyhoeddi adroddiad Brooks ym mis Mawrth 2021 mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi pedwar ymgynghoriad perthnasol:

1. Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar
2. Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr
3. Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg
4. Amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau tymor byr ac eiddo preswyl ychwanegol arall o bosib

Mae fy swyddfa wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf a bwriadwn ymateb i'r tri arall hefyd. Wrth ystyried yr ymgynghoriadau hyn, daw yn amlwg eu bod gyda'i gilydd yn ymateb i'r holl argymhellion a wnaeth Brooks.

Mae pob ymgynghoriad yn ymateb i **Argymhelliad 1** – datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus. Mae pob un yn gosod cyd-destun lleol ar gyfer y newidiadau a awgrymir. Gellid dadlau eu bod hefyd yn ymateb i **Argymhelliad 4** – ymateb i Brexit a Covid-19. Mae'r argymhelliad hwnnw yn gofyn i'r Llywodraeth weithredu mewn modd mwy rhagweithiol, gan gymryd camau mwy radical nag a gymerid fel arall. Gyda'i gilydd, mae'r pedwar ymgynghoriad yn creu sail ar gyfer gweithredu penderfynol gan y Llywodraeth. Amser a ddengys pa mor radical fydd y camau a gymerir yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion eraill, fe'u trafodwn yng nghyd-destun yr ymgynghoriadau unigol isod.

1. Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Argymhelliad 6 – Premiwm y Dreth Gyngor Leol

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes

Mae'r ymgynghoriad uchod yn ymateb i'r tri argymhelliad hyn. Mae Argymhelliad 5 yn cyfeirio at bolisiâu trethiannol, ymhlith meysydd eraill, a dyma sail yr ymgynghoriad. Gan ymateb i Argymhelliad 6 am breiwm y dreth gyngor, mae'r Llywodraeth yn gofyn nifer o gwestiynau am effeithiolrwydd premiymau, sut i'w defnyddio, uchafswm y premiwm a chynyddu'r cyfanswm. Mae Argymhelliad 7 yn gofyn i'r Llywodraeth ymgynghori ynglŷn ag eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach. Mae'r Llywodraeth yn gwneud hynny ac yn gofyn am farn am ddiffinio eiddo fel llety hunanddarpar, y trothwyon ar gyfer llety o'r math a'r posibilid o'u newid, yn ogystal â'r rhyddhad trethi.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad uchod, rydym wedi mynegi'r farn, petai newidiadau i'r system drethu lleol yn golygu llai o dai yn trosi yn ail gartrefi neu yn llety hunanddarpar, a phetai mwy o bobl leol yn gallu rhentu neu brynu'r tai hynny, gallai'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

2. Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Argymhelliad 2 – rheoli niferoedd ail gartrefi

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Argymhelliad 9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Argymhelliad 11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Mae'r ymgynghoriad uchod yn ymateb i'r chwe argymhelliad hyn. Mae'r Llywodraeth yn cynnig gweithredu Argymhelliad 2 trwy roi'r dewis i awdurdodau lleol wneud caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer newid tŷ yn ail gartref neu yn llety gosod tymor byr. Gan ymateb i Argymhelliad 3, cynigir tri dosbarth defnydd newydd, sy'n cynnwys prif gartrefi, cartrefi eilaidd a llety gosod tymor byr. Mae eu diffiniadau yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y caiff tai eu meddiannu, a gan bwy. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ar wahân, wrth gyflwyno'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, ei fod wedi comisiynu darn o waith i ystyried ail ran yr argymhelliad hwn, sef cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer cartrefi gwyliau. Mae'r cynigion ynglŷn â dosbarthiadau defnydd newydd yn berthnasol i Argymhellion 10 ac 11 hefyd. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ar wahân y bydd yn cynnal peilot yn ardal Dwyfor i fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi. Bydd yr ymgynghoriad uchod yn llywio rhan o'r peilot, gan roi cyfle i weithredu Argymhelliad 11.

Mae Argymhelliad 5 yn cyfeirio at bolisiâu cynllunio uniongyrchol ac anuniongyrchol, ymhlith meysydd eraill. Rhoddir enghreifftiau o'r rhain, sef cyfyngiadau ar ddefnydd o dai annedd fel ail gartrefi (polisi uniongyrchol) a thai fforddiadwy neu gyfyngiadau perchnogaeth leol ar eiddo (polisiâu anuniongyrchol). Mae ymateb y Llywodraeth i Argymhelliad 2 uchod yn berthnasol i'r polisiâu uniongyrchol y cyfeirir atynt yng nghydestun Argymhelliad 5. Trwy wneud caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer newid tŷ yn ail gartref, gallai awdurdod lleol gyfyngu ar ddefnydd o dai annedd fel ail gartrefi. O safbwynt polisiâu anuniongyrchol, mae'r Llywodraeth yn ymateb i hyn trwy gynnig galluogi awdurdodau lleol i osod amod ar bob annedd newydd yn cyfyngu ei ddefnydd i fod yn brif gartref. Mae'r pŵer arfaethedig hwn ar gyfer awdurdodau lleol yn berthnasol i Argymhelliad 9 hefyd. Mae Brooks yn annog Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i estyn eu polisi 'Tai Marchnad Lleol' ac yn annog awdurdodau cynllunio eraill i ystyried a fyddai polisi o'r math yn addas yn eu hardaloedd nhw. Byddai cynnig y Llywodraeth yn hwyluso hyn.

3. Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Argymhelliad 12 – sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

Mae creu Comisiwn ar gymunedau Cymraeg yn un o nifer o gynigion gan y Llywodraeth yn yr ymgynghoriad uchod. Nod y Comisiwn fydd diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r Llywodraeth yn ymateb yn uniongyrchol i awgrym Brooks y dylai'r Comisiwn fynd i'r afael yn benodol â'r heriau a achoswyd gan Brexit a Covid-19 ac yn nodi y bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion polisi.

4. Amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau tymor byr ac eiddo preswyl ychwanegol arall o bosib

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Argymhelliad 8 – Treth trafodiadau tir

Mae'r ymgynghoriad uchod yn ymateb i'r ddau argymhelliad hyn. Fel yn achos yr ymgynghoriad i drethi lleol, a drafodwyd eisoes yng nghyd-destun Argymhelliad 5, sail yr ymgynghoriad hwn yw polisiâu trethiannol. Gan ymateb i Argymhelliad 8, cynigia'r Llywodraeth gynyddu cyfraddau'r dreth ar gyfer rhai trafodiadau mewn ardaloedd y nodir bod angen cymorth arnynt i reoli problemau sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi a llety gwyliau. Cynigir amrywiadau lleol i'r dreth trafodiadau tir er mwyn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu rhai cymunedau. Mae'r Llywodraeth yn gofyn barn am faint yr ardaloedd y dylid cyflwyno amrywiadau lleol i'r cyfraddau treth ynddynt. Mae'n gofyn hefyd am feini prawf posib ar gyfer cyflwyno cyfraddau treth newydd, pa mor rheolaidd y dylid adolygu'r sefyllfa, y mathau o eiddo y dylai'r cyfraddau arfaethedig fod yn gymwys iddynt ac effeithiau posib ar y Gymraeg.

Rydym o'r farn bod yr ymgynghoriadau uchod yn ymateb cynhwysfawr gan y Llywodraeth i argymhellion adroddiad Brooks. Fel y nodwyd, camau nesaf y Llywodraeth fydd yn dangos i ba raddau y mae'n barod i weithredu'n ymarferol.

Mae ail destun yr ymchwiliad yn cwmpasu'r amcanion polisi, sail y dystiolaeth ar gyfer newid polisi yn y maes hwn ac unrhyw fylchau o ran gwybodaeth a data.

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, *Ymchwil i Ddatblygu Sylfaen Dystiolaeth ar Ail Gartrefi*. Dengys yr adroddiad bod cyfyngiadau amlwg i'r dystiolaeth yn y maes. Golyga hyn ei fod yn anodd egluro gwir effaith ail gartrefi a chynnig tystiolaeth i ddangos hynny. Mae hyn yn cynnwys effaith bosib ail gartrefi ar y Gymraeg. Oherwydd hyn, rydym yn cefnogi bwriad y Llywodraeth i'r Comisiwn arfaethedig ar gymunedau Cymraeg ddatblygu model i gyflwyno tystiolaeth i awdurdodau lleol ar hyfywedd y Gymraeg yn eu cymunedau.

Bwriedir i'r Comisiwn sicrhau bod ymyraethau polisi yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan ddatblygu modelau sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd o ddiddordeb a sensitifrwydd ieithyddol. Bydd y Comisiwn yn edrych ar dystiolaeth empirig a all fod yn sail i argymhellion polisi i fynd i'r afael â'r materion penodol sy'n wynebu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Gallai hyn gyfrannu at feysydd polisi addysg, cynllunio ac ymyraethau eraill sydd wedi'u teilwra neu eu targedu i adlewyrchu amgylchiadau ieithyddol lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried canfyddiad yr adroddiad nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael eisoes yn ddigon manwl na gwrthrychol i fod yn sail ar gyfer gweithredu ar lefel leol, gan ein tywys yn ôl i argymhellion adroddiad Brooks. Rydym yn annog y Llywodraeth i weithredu'n

ddi-oed i sefydlu'r Comisiwn, a ystyriwn yn un o nifer o gamau tuag at ganfod datrysiadau i'r hyn a elwir yn argyfwng ail gartrefi yng Nghymru. Hoffem awgrymu y byddai o fudd i'r Comisiwn wahodd y mudiadau sy'n ymgyrchu ynglŷn ag ail gartrefi i gyfrannu at ei waith yn ogystal. Mae nifer o'r mudiadau hyn wedi bod mewn cysylltiad â'm swyddfa i a gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn mynegi pryderon am y sefyllfa ac yn ymbil am weithredu brys gan y Llywodraeth.

I gloi, rydym o'r farn bod ymateb y Llywodraeth yn gadarnhaol a'i chynlluniau yn addawol. Hoffem bwysleisio, ar yr un pryd, mai gweithredu'r cynlluniau hynny fydd yn bwysig ac mai dyma fydd yn amlygu i ba raddau y maent yn llwyddo. Yn ogystal, oherwydd cymhlethdod y maes hwn, mae angen i'r Llywodraeth barhau i fod yn hyblyg ac yn barod i ymateb i newidiadau. Ni fydd cyflwyno ymyraethau yn ddigon ynddynt eu hunain. Os ydynt yn llwyddo, gallai'r ymyraethau hynny liniaru effeithiau negyddol ail gartrefi yn yr ardaloedd lle maent yn creu problemau, ac atal problemau rhag datblygu mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, ni fyddant yn datrys y mater unwaith ac am byth.

Hoffem wybod beth yw bwriad y Llywodraeth o safbwynt monitro a gwerthuso llwyddiant ei gweithredoedd ac yn hynny o beth anogwn y Pwyllgor i gadw'r mater dan ystyriaeth yn ystod cyfnod y Senedd hon. Hoffem bwysleisio'r angen am well data a gwybodaeth soffistigedig am dueddiadau symud pobl o safbwynt cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym yn deall y bydd tystiolaeth yn y maes hwn yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn arfaethedig ond hoffem wybod a fydd gan yr awdurdodau lleol rôl i'w chwarae yn y cyd-destun hwnnw, trwy wella'r wybodaeth sydd ganddynt. Os felly, gofynnwn a fydd y Llywodraeth yn eu cefnogi gyda'r gwaith hwnnw. Mae'r rhain yn faterion y byddwn yn eu codi wrth ymateb i'r ymgynghoriadau uchod.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymchwiliad i'r maes pwysig a chymhleth hwn. Diolch eto am y cyfle i gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Comments, on behalf of the **Home Owners of Wales Group**, upon the Report by Simon Brooks
“Second Homes – Developing new Policies in Wales “
Presented by Mr. J Morrison FRICS FNAEA Chartered Surveyor, Planner and Valuer.
Contact details on the email which had this Response attached.

Comment 1:

The Home Owners of Wales Group represent around 4000 (and growing), concerned home owners who live, part of their lives in Wales and at other times, in other parts of the UK and Europe. It also comprises Chartered Surveyors, Solicitors, Barristers, Doctors, Engineers, Designers, Industrialists and experts in Town Planning and many other businesses and those working for themselves.

The Group are very concerned at what they feel is discriminatory and endemic prejudice, being purposefully targeted at them in terms of proposed legislation, which interferes with moral decency, honesty, equality and their human rights to enjoy their homes without interference, obstruction and malignment, appearing to come from local and national government.

The Group believes that section 12b of the Housing Act 2014 (Wales) is unlawful and needs urgent amendment in order to prevent, potential legal action and compensations claims which could run into many millions of pounds. This section 12b, allows local government to make ad-hoc judgement upon a Council Tax levy of up to 100%, upon certain groups of people. Legal advice appears to support that Section 12b contravenes

The Equality Act 2010

The Consumer Rights Act 2015

Article 8 of the European Convention of Human Rights (Royal Court of Justice 2016).

Council tax is not a personal tax. It was always designed to be a tax on property value within very defined principles. I.e.: Two identical, residential properties adjacent, would have identical council tax assessments. This was graded so that larger properties would pay more council tax than smaller properties.

However certain Councils in Wales have already discriminated against our Home Owners in our group, forcing them (by threatening legal action), to pay 200% council tax on their property. This bullying and unfair compulsion, has not been means tested, nor have any of those known to us, been personally counselled as to why they are being singled out in this unfair manner. Referring back to the design of council tax, two identical residential properties lying adjacent to each other, no longer have the same burdens upon them and it is the owner which is adversely affected. This, on any level is unfair, unjust and discriminatory. Council tax is not an income tax.

If one reads the 3 Statutes above, and sits in the position of such a home owner as our group represents, it can be clearly seen, that such unfair and aggressive action, breaches not one but all 3 of those primary legislations. There is no excuse for badly drafted, secondary legislation. Section 12b is a good example. Primary Legislation must always be respected and taken into account when considering subsequent legislation whether being primary or secondary law.

Our Group also comprises solicitors, barristers and others who are well qualified in Law.

Our group loves Wales, the Welsh culture, the Welsh people, the Welsh language, and has respect for the Welsh Government and those who serve it locally in various councils. But this respect is not being reciprocated and that is very disappointing. Since our introduction to yourselves, none of our suggestions have come to anything and all we are being invited to do, is comment on Simon Brooks' report which somewhat demonstrates our point.... which is ... (We, the Welsh Government

have already made up our minds, that we will blame second home owners and commission a report on

“The Problem of Second Homes and how they impact on the Terms of Reference mentioned below.” Given that these are the Report's Terms of reference, it is not surprising that the report produced, concentrates upon them.

The group's overwhelming overture to the Welsh Government is that anyone who owns or lives in a residential property in Wales, is an equal member of the local community, should be respected as such and should pay the listed UK Council Tax, subject to the published exemptions. i.e.: One property, one Council Tax; Two properties, two council taxes etc. That is fair and reasonable and has been accepted by the UK voters and populous, since its introduction in 1993 via the Government Finance Act 1992. Hence, section 12b of the Housing Act 2014 should be amended. The consequences of not addressing this urgently could be very serious and very expensive for the Welsh Government.

Comment 2:

Terms of Reference in Simon Brook's report are:

Context

A Regional and local problem – not a national problem

The Impact of second homes on the sustainability of communities and the Welsh language

Brexit and covid – a reason to act

A theoretical model for policy intervention

Taxation policy

Planning policy and the existing housing stock

The future of the Welsh as a community Language

Recommendations

The very report-heading, is prejudicial and discriminatory. It suggests that second home owners need further policies of control and that they are to blame for the issue.

What is the issue? It is of course to investigate why there is a shortage of affordable Homes in certain parts of Wales and what can be done to resolve this. It misses out entirely, the converse truth, being that there is also a shortage of Holiday Homes in certain parts of Wales. What can be done about that? One can see immediately that this subject has been skewed by omitting a major element conveniently absent from the terms of reference. This leaves certain groups of home owners as victims.

It is portraying that the report has been produced by Swansea University. The report says that it has been commissioned by Coleg Cymraeg Cenedlaethol who in turn, are sponsored by the Welsh Government. Some might conclude that there are definite conflicts of interest with the independence of this report. Of course, our respect for freedom and social justice, acknowledges that all parties involved have every right to express their opinions.

Overview:

Comment 3:

Possible Conflicts of interest.

The Report was Funded by Coleg Cymreag Cenedlaethol; founded recently in 2011. Supports the Welsh Language and further Welsh Education and opportunities. It is associated with the Welsh Government and some might say, that it is not, a truly independent review

Moving on, the Report is to scrutinise policy for second homes in Wales and Cornwall (Wales for Taxation and Cornwall for Planning).

In the Report the author does admit he advises the Welsh Government.

Recommendation from our Group:

Any commissioned report upon which a government is basing future policies, should be entirely independent and the Home Owners of Wales Group would recommend that a new survey is commissioned upon “The shortage of affordable accommodation in Wales; The Shortage of Holiday Accommodation in Wales – the way forward.”.

Comment 4:

The Report states:

Page 3 of report **Context**

“(Second Homes) – their presence is therefore a matter of interest from a language planning perspective as well as for town and country planning”.

We do not see any conflict from second home owners upon the Welsh Language. In fact, in North Wales where the subject of second home ownership is at boiling point, there is the highest proportion of the Welsh population, speaking Welsh. Why does Town and Country Planning have any involvement with the Welsh language? The Group has Town Planning experts amongst them who consider language and its effect upon certain home ownerships, largely irrelevant bearing in mind, modern views on diversity. Wales appears to be on its own in this matter. The rest of the world are certainly thinking of inclusion not exclusion.

Comment 5:

Page 3 Table 1

Estimated 24,400 Second Homes in Wales (20/21 stats). Excluding those which have flipped to non-domestic rates status. There are 4,900 in Gwynedd; 4000 in Pembrokeshire; 5000 in Cardiff; 2000 in Anglesey;

We are happy to agree these figures as approximate.

The report says there are 4900 second homes in Gwynedd
Different Government statistics show that 888 or 1,976 of second homes have flipped their status

from paying council tax to paying non-domestic rates. Please can you advise our group of the correct number of properties for Gwynedd and for Wales.

Total number of home owners in Gwynedd is 24,000. The populous of Gwynedd is 124,000. Please can you verify these figures.

Comment 5

Page 4

The Report mentions ...” Second homes are unavailable for residential use”.

Dylai Awdurdodau Lleol ystyried polisi Tai Marchnad Leol a chreu amodau sy'n berthnasol i bob sir a ward. Gallai hyn greu tai marchnad o wahanol ddeiliadaethau sy'n addas i'r amodau economaidd sy'n ymwneud â'r ardal honno, gan sicrhau bod y lluosydd cyflog yn cyfateb i brisiau eiddo o fewn y rhanbarth.

Dylai'r cynlluniau Tai Marchnad Lleol fod yn rhan annatod o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae amodau'r Cynllun Datblygu Lleol wedi newid yn sylweddol ers cynhyrchu'r cynllun diwethaf, lle mae mwy o ysgolion ardal wedi'u datblygu gan arwain at gau ysgolion pentrefol bach, a fyddai'n golygu bod rhaid i blant deithio i'r ysgol yn yr achosion hyn. Fodd bynnag, byddai teuluoedd yn dal i fod eisiau byw yn y lleoliadau gwledig hyn. Mae siopau pentref bach gwledig yn parhau i ffynnu, yn enwedig ers Covid, sy'n golygu bod y gwasanaeth hanfodol hwn yn parhau i gael ei gynnig. Mae angen i themâu allweddol yn y cynllun datblygu gyd-fynd â ffordd o fyw yr 21ain ganrif a'r angen i'r CDLI fod yn waith parhaus sy'n mynd rhagddo i gwrdd â materion gwleidyddol; economaidd, cymdeithasegol; technolegol; cyfreithiol; a ffactorau amgylcheddol.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai canllawiau cynllunio gael eu diwygio neu eu cryfhau er mwyn cefnogi neu hwyluso'r broses o ymestyn y polisi hwn neu bolisïau tebyg.

Argymhelliad 10 – Creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Creu dosbarth defnydd newydd i sicrhau bod osgoi treth a gofynion cofrestru yn cael eu hosgoi – mae hyn yn sicrhau bod system deg a chyfiawn yn cael ei defnyddio lle mae perchnogion yn talu swm teg a chyfartal o dreth yn unol â chyfnod llety gwyliau a hefyd yn rheoli/rheoli nifer yr eiddo sydd ar gael, gan sicrhau nad yw nifer yr unedau preswyl sydd ar gael i deuluoedd lleol mewn angen yn cael ei ystumio gan y niferoedd cynyddol o osodiadau gwyliau tymor byr. Mae angen i awdurdodau lleol reoli'r categori hwn gyda gweithdrefnau gorfodi addas yn eu lle.

Argymhelliad 11 – Treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Mae angen i ddata Awdurdodau Lleol fod yn gyfredol ac nid yn hanesyddol, gan fod y sefyllfa'n newid yn barhaus. Cytuno mai treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi fyddai un o'r atebion i sicrhau nad yw ail gartrefi yn cymryd cyfran gynyddol o dai o fewn rhai ardaloedd. Byddai addasiadau i ail gartrefi wedyn yn amodol ar amodau cynllunio gan sicrhau bod rheolaeth datblygu yn allweddol i reoli nifer y dyraniadau o fewn ardaloedd wardiau, a hyd yn oed dyraniad pentref/tref. Lle mae dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi yn cael ei gyflwyno ar gyfer ardaloedd ward penodol (neu hyd yn oed lleoliadau micro o fewn pob ward), dylid hefyd ystyried yr angen am dai cymdeithasol a thai fforddiadwy a dylid cyflwyno deddfwriaeth bosibl sydd wedyn yn cael ei diogelu yn gyfraith, lle dylid ystyried hyn wedyn ym mhob newid defnydd i lety gwyliau neu lle mae'n hysbys bod eiddo preswyl yn cael ei ddefnyddio fel ail gartref.

Argymhelliad 12 – Sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion ynghylch dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion mewn ymateb i heriau ieithyddol sy'n wynebu ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a grwpiau iaith o fewn lefel Wladol/Rhanbarthol a Sirol gan ddarparu manylion gronynnog ar gyfer pob cymuned a ward. Dylai'r Comisiwn wedyn weithio gyda'r 'Mentrau Iaith' i weithio ar lefel leol gan sicrhau bod yr argymhellion yn berthnasol i bob maes unigol ac nid yn ddull cyffredinol na 'gwn gwasgariad'. Byddai gweithio gydag arbenigwyr Daearyddiaeth Ddynol hefyd yn galluogi'r Comisiwn newydd i ddeall effeithiau mewnffudo ar gymunedau a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau ynghyd â gostyngiad mewn rhai gwasanaethau, h.y. ysgolion, lle mae mewnlifiad o bobl wedi ymddeol i ardaloedd, sydd hefyd yn yn golygu cynnydd posibl mewn gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymorth meddygol neu ofal. Mae hyn hefyd yn effeithio ar argaeledd tai. Mae'r math hwn o waith yn darparu tystiolaeth ychwanegol o'r angen am Bolisi Gosod Lleol i sicrhau bod teuluoedd lleol mewn angen yn cael cartrefi diogel. Dylai'r Comisiwn warchod, sefydlu a meithrin y Gymraeg mewn cadarnleoedd Cymraeg a hefyd ddatblygu strategaethau newydd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd eraill. Mae tystiolaeth eisoes o ailstrwythuro cymdeithasol-economaidd a chymdeithasol yn digwydd ar ôl Brexit ac ar ôl Covid.

Ymholiad i ail gartrefi

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Gweler ymateb Adra i'r argymhellion yn adroddiad Dr Simon Brooks ac ymateb Llywodraeth Cymru mewn ysgrifen felen isod:

1. Argymhellion yn adroddiad Dr Simon Brooks

Argymhelliad 1 – datblygu amrywiad rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus

Ffenomen ranbarthol a lleol yw ail gartrefi yn bennaf oll, a dylai Llywodraeth Cymru feithrin atebion polisi rhanbarthol a lleol wrth ganiatáu amrywiadau polisi oddi mewn i fframwaith cenedlaethol. Dylai atebion polisi cyhoeddus fod yn ddigon hyblyg fel bod modd eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd mewn siroedd a chymunedau gwahanol yn ôl anghenion rhanbarthol a lleol.

Er ein bod yn cefnogi'r argymhelliad, rydym yn cydnabod y gwaith cymhleth sydd ynghlwm â sefydlu fframwaith polisi sy'n ddigon hyblyg i ymateb i wahaniaethau angenrheidiol rhwng rhanbarthau ac ardaloedd o fewn y rhanbarthau hynny. Pa bynnag fframwaith polisi diwygiedig a gyflwynir, bydd angen sicrhau nad yw prosesau gwneud penderfyniadau a chymeradwyo yn rhy gymhleth, yn rhy ficrocrataidd, yn cymryd gormod o amser ac nac ydynt yn cyfrannu'n anfwriadol at yr aneffeithlonrwydd sy'n bodoli yn y fframwaith cyfredol, neu'n ei waethgu (e.e. Cynllunio). Gallai hyn arwain at ragor o oedi a mwy o gostau o ran cyflwyno atebion neu gynlluniau datblygu i fynd i'r afael â'r angen lleol am dai, a byddai hynny'n wrthgynhyrchol.

Argymhelliad 2 – rheoli niferoedd ail gartrefi

Mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan ail gartrefi, dylid gosod nod polisi cyhoeddus o geisio sefydlogrwydd yn eu niferoedd, neu ostyngiad graddol dros nifer o flynyddoedd.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad, yn enwedig yr egwyddor o sicrhau sefydlogrwydd yn niferoedd ail gartrefi mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio ganddynt. Mae angen i unrhyw gyfyngiadau sy'n cael eu cyflwyno i reoli niferoedd ail gartrefi gyd-fynd â pholisïau sy'n gwella mynediad at gartrefi mwy fforddiadwy yn y cymunedau hynny sydd wedi'u heffeithio a chynyddu cyfoeth y rhai sy'n byw yn y cymunedau hynny sydd wedi'u heffeithio, a'r rhai sy'n dymuno aros yn y cymunedau hynny. O blith enghreifftiau mae datblygiad economaidd rhagweithiol a chydlynol, polisi cynllunio a chymunedau cynaliadwy sydd, dros amser, yn sicrhau enillion cyfartalog uwch ar gyfer y rheiny sy'n byw yn y cymunedau sydd wedi'u heffeithio.

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi

Er mwyn hwyluso penderfyniadau polisi wedi'u seilio ar wybodaeth wrthrychol, mae angen diffinio ail gartrefi yn well. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried sawl ffordd o wneud hyn, ond gyda hyn mewn golwg, dylid cyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn a dylai'r diffiniad gynnwys y cartrefi hynny sy'n cael eu gosod fel busnes, yn hytrach na'r rhai sydd at ddefnydd personol yn unig. Wedi dweud hynny, ni ddylid oedi'n ormodol gweithredu argymhellion eraill a datblygu atebion polisi priodol, wrth aros am welliant yn y data y byddai gweithredu'r argymhelliad penodol hwn yn ei gyflawni.

Argymhelliad 4 – ymateb i Brexit a Covid-19

Er mwyn ceisio lliniaru effeithiau anochel Brexit a Covid-19 ar y farchnad dai mewn cymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, dylai Llywodraeth Cymru weithredu mewn modd mwy rhagweithiol, gan gymryd camau mwy radical nag a gymerid fel arall.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad, ond byddwn hefyd yn ychwanegu bod poblogrwydd trefniadau gweithio'n hyblyg a'r gallu i weithio gartref yn sgil pandemig Covid, bellach yn ychwanegu at y tebygolrwydd o gynnydd mewn ail gartrefi. Cafodd prisiau tai 2021 eu codi mewn rhai ardaloedd o'r Deyrnas Unedig gan gynnydd mewn mudo o ardaloedd trefol i ardaloedd mwy gwledig (e.e. o dde-ddwyrain Lloegr i dde-orllewin Lloegr) gyda rhai o'r tai hyn yn cael eu prynu fel ail gartrefi.

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi Dylid cyflwyno polisiâu ar draws ystod o feysydd polisi, ac yn benodol yn y tri maes canlynol: polisiâu cynllunio uniongyrchol, polisiâu cynllunio anuniongyrchol, a pholisiâu trethiannol.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad, ond mae angen i ni weld polisi'r Gymraeg yn cael mwy o sylw yn yr argymhelliad.

Argymhelliad 6 – Premiwm y Dreth Gyngor Leol

Dylai cynghorau sir sy'n canfod fod ail gartrefi yn broblem gymdeithasol ddifrifol ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn, gan godi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i 100%.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad. Wedi dweud hynny, dylid hefyd ystyried y fframwaith a roddir i Awdurdodau Lleol ynghylch defnyddio'r incwm a geir drwy godi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i sicrhau bod yr arian yn mynd tuag at waith sy'n mynd i'r afael â'r angen lleol am dai, yn hytrach nag at flaenoriaethau eraill y Cyngor.

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â phosibiliad eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn

Argymhelliad 8 – Treth trafodiadau tir

Dylai fod modd amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir mewn un ai siroedd neu wardiau llywodraeth leol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er mwyn cyflawni hyn:

- Gallai Llywodraeth Cymru ddirprwyo i gynghorau sir hawl i amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, gan greu'r potensial i ychwanegu cyfradd bellach at y dreth o hyd at 4% o werth yr ail eiddo mewn rhai rhannau o Gymru.
- Neu, gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn y dull hwn mewn wardiau llywodraeth leol penodol yr effeithir arnynt yn ddwys gan y broblem ail gartrefi.

Rydym yn cefnogi egwyddor yr argymhellion sy'n cael eu cyflwyno yma. Pa bynnag argymhelliad a ddilynir, un egwyddor bwysig na ddylid ei thanseilio yw peidio â rhoi buddsoddiadau gan landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat dan anfantais yn anfwriadol. Mae'r Sector Rhentu Preifat yn rhan bwysig o gyflenwad tai mewn unrhyw ardal, a rhaid cynnal hyn a pharhau i ddarparu llety o ansawdd. Mae'r ddau argymhelliad yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn mewn ffyrdd gwahanol drwy ddirprwyo lle y defnyddir y cynnydd gwahaniaethol mewn treth i ddaearyddiaeth fwy lleol. Serch hynny, dylai unrhyw wriad i ba

bynnag cyfeiriad mewn perthynas â'r naill argymhelliad neu'r llall ystyried yr effaith mae cyni wedi'i chael ar wanhau gallu sawl swyddogaeth tai strategol mewn Awdurdodau Lleol a'r gallu o fewn Llywodraeth Cymru i bennu data tai mor ronnynog, h.y. yr adrannau a fyddai'n darparu'r data a fyddai'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau mor bwysig. Mae cysylltiadau yma i gasgliadau'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy yng Nghymru, pan argymhellwyd dull mwy cyson i gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, sydd fel arfer yn cael eu cynnal gan Awdurdodau Lleol, gyda lefel o oruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn

Dylai Cynghorau Gwynedd a Môn ystyried ymestyn polisi 'Tai Marchnad Lleol' Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i gymunedau arfordirol a bregus eraill yn y ddwy sir lle ceir dwysedd o ail gartrefi ochr-yn-ochr â phroblem fforddiadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru graffu ar y polisi 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn ystyried a allai polisi o'r fath fod yn llesol ar gyfer rhai o'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio neu gryfhau cyfarwyddyd cynllunio er mwyn cefnogi neu hwyluso ymestyn y polisi hwn neu bolisiau cyffelyb.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad. Byddai'n llesol i gefnogi'r argymhelliad i adolygu'r nifer o dai newydd a gafodd eu datblygu'n wreiddiol dan y polisi Tai Marchnad Lleol a'u gwerthu ymlaen yn ddiweddarach, er mwyn pennu'r llif di-dor o drafodiadau gwerthu tai ar gyfer y categori eiddo hwn, yn enwedig dan amodau marchnadoedd tai llai sefydlog. Yn benodol, profiad o'r amodau lle caiff y S106 gwreiddiol ei 'hepgor' pan mae 'methiant dilyd' dros gyfnod o dri mis i werthu uned breswyl i unigolyn lleol arall, a'r opsiynau ar gael. Byddai methu â gweithredu llif di-dor o drafodiadau gwerthu tai ar gyfer y categori eiddo hwn yn tynnu oddi ar apêl y cynnyrch i brynwyr. Byddai hefyd yn llesol adolygu argaeledd morgeisi sy'n cael eu cynnig i brynwyr tai sydd â'r amod cynllunio S106 hwn ynghlwm â nhw, ac unrhyw gyfyngiadau a chostau ychwanegol a roddir ar y codwr morgais mewn cymhariaeth â phrynu eiddo cyffelyb yn y farchnad agored. Byddai hyn yn ddefnyddiol i sefydlu unrhyw wahaniaethau sy'n bodoli ac i ddylanwadu darparwyr morgeisi i gynnig mwy o degwch os nad dyma'r achos, ac felly hyrwyddo cynaliadwyedd y cynnyrch tai ei hun.

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad

Argymhelliad 11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal treial mewn cymuned neu glwstwr o gymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, a lle ceir cefnogaeth gymunedol ar gyfer hynny, er mwyn gwerthuso ymarferoldeb ac effaith cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi. Byddai hyn yn gwneud trosi tŷ annedd yn ail gartref yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio pan fo canran yr ail gartrefi yn y stoc dai mewn cymuned neilltuol yn croesi trothwy penodol.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad i gynnal treial er mwyn gwerthuso ymarferoldeb ac effaith cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi. Dylai canlyniadau'r treial ddarparu profiadau diweddar y gellir eu cymharu â phryderon hirhoedlog ynghylch creu'n anfwriadol marchnad dai â dwy haen iddi sy'n rhoi preswylwyr prif gartrefi dan anfantais.

Argymhelliad 12 – sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Comisiwn er mwyn gwneud argymhellion yn ymateb i'r heriau ieithyddol a fydd yn wynebu ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol ar hyn o bryd yn wyneb ailstrwythuro cymdeithasol-economaidd a chymdeithasol tebygol. Dylai'r Comisiwn fynd i'r afael yn benodol â heriau'r cyd-destun ôl-Brexit ac ôl-Covid gyda'r nod o warchod, sefydlogi a meithrin dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad, ond byddwn yn ymestyn ei gwmpas i gynnwys poblogrwydd y trefniadau gweithio'n hyblyg a'r gallu i weithio gartref yn sgil pandemig Covid, sy'n ychwanegu at y tebygolrwydd o gynnydd mewn ail gartrefi, gan gael effaith niweidiol ar y Gymraeg.

2. Gweithgarwch/ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion

Cynllun peilot ail gartrefi

Gan ddechrau ym mis Ionawr 2022, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cynllun peilot fesul cam i brofi nifer o ymyriadau yn Nwyfor, Gwynedd. Dyma'r tro cyntaf y bydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn y farchnad i gefnogi pobl leol i fyw yn eu cymunedau lleol fel hyn.

Cam cyntaf y cynllun peilot fydd cynnwys ystod o gymorth ymarferol i helpu pobl geisio tai fforddiadwy a bydd yn cysylltu ag ymyriadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried cynlluniau rhannu ecwiti, atebion tai rhent a chartrefi gwag, ond bydd yn cyhoeddi rhagor o fanylion ar ôl y gyllideb ddrafft ar 20 Rhagfyr 2021.

Yng ngham dau byddwn yn ystyried y system gynllunio ei hun.

Mae Adra yn awyddus clywed rhagor ynghylch manylion y cynllun peilot.

Ymgynghoriadau

1. [Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo](#) - Wedi dod i ben

Ceisiwyd safbwyntiau ynghylch:

- y grymoedd dewisol sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi mwy o'r dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn hirdymor.
- a ddylid cryfhau'r meini prawf ar gyfer diffinio eiddo llety hunanarlwyo annomestig?

Ymddengys bod yr ymatebion yn unol â'r argymhellion a wneir yn adroddiad Dr Simon Brooks.

2. [Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr](#) - yn dod i ben 22 Chwefror 2022

Yn ymgynghori ar y canlynol:

Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 i:

- ddiwygio defnydd cyfredol ar gyfer 'Tai annedd',
- creu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer 'Ail Gartrefi' ac ar gyfer 'Llety Gwyliau Tymor Byr'

- diwygiadau cysylltiedig i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
- diwygiadau cysylltiedig i Bolisi Cynllunio Cymru.

Ymddengys bod yr ymatebion yn unol â'r argymhellion a wneir yn adroddiad Dr Simon Brooks. Bydd Adra yn ymdrechu i ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen sydd wedi'i sefydlu naill ai drwy Cartrefi Cymunedol Cymru neu'n unigol (neu'r ddau)

3. [Y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg](#) - yn dod i ben 22 Chwe 2022

Cynigion yn cynnwys:

- Datblygu pecyn o gymorth i helpu i greu mentrau cymdeithasol dan arweiniad cymunedau sy'n gallu:
 - Creu swyddi
 - Sicrhau gwasanaethau mewn cymuned.
 - Archwilio ymyriadau tai dan arweiniad cymunedau bach dan y model cydweithredol
- Cefnogi menter gymdeithasol gymunedol sydd eisoes yn bodoli neu un newydd i ddatblygu busnes lle all llety gwyliau tymor byr gynhyrchu digon o refeniw i brynu cyflenwad o dai rhent cymdeithasol.
- Sefydlu Grŵp Llywio o Werthwyr Tai i archwilio'r posibilrwydd o greu dulliau arloesol i werthu tai lleol. Y nod fyddai datblygu'r rhain mewn cydweithrediad â phob rhanddeiliad, gan adnabod camau ymarferol i gefnogi prynwyr lleol ennill mynediad teg at dai lleol.
- Archwilio gyda rhanddeiliaid perthnasol, datblygu cynllun gwirfoddol sy'n caniatáu i bobl leol gael y cyfle cyntaf i brynu neu rentu eiddo.
- Creu comisiwn ar gymunedau Cymraeg a fydd yn ystyried y gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar y gallu i gynnal yr iaith fel iaith gymunedol.
- Ymestyn cwrdd y Bwrdd Crwn Economi a'r iaith i gynnwys Tai gyda rôl o oruchwylio cynnydd y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Bydd Adra yn ymdrechu i ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen sydd wedi'i sefydlu naill ai drwy Cartrefi Cymunedol Cymru neu'n unigol (neu'r ddau)

4. [Ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir](#) - yn dod i ben 28 Mawrth 2022

Yn ymgynghori ar y materion canlynol:

- maint yr ardaloedd lle ellid cyflwyno amrywiadau lleol
- y weithdrefn ar gyfer adnabod yr ardaloedd lle all gyfraddau gwahanol fod yn berthnasol
- y mathau o drafodiadau a allai fod yn ddarostyngedig i wahanol gyfraddau mewn ardaloedd lleol.

Ymddengys bod yr ymatebion yn unol â'r argymhellion a wneir yn adroddiad Dr Simon Brooks. Bydd Adra yn ymdrechu i ymateb i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen sydd wedi'i sefydlu naill ai drwy Cartrefi Cymunedol Cymru neu'n unigol (neu'r ddau)

Ymgynghoriad ar ail gartrefi

Consultation on second homes

Ymateb gan: Gymdeithas Dai Grŵp Cynefin

Fel Cymdeithas Dai sydd yn weithredol ar draws gogledd Cymru a gogledd Powys, rydym yn falch iawn o gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad yma gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith a'r ymgynghoriadau diweddar sydd a'r nod i fynd i'r afael a'r argyfwng tai mewn cymunedau gwledig.

Mae Grŵp Cynefin yn croesawu adroddiad Dr Simon Brooks "Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru" a dyma ein sylwadau ar yr argymhellion yn unol â Chylch Gorchwyl Yr Ymchwiliad:

Argymhellion o adroddiad gan Dr Simon Brooks

Argymhelliad 1 – datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus

Ffenomen ranbarthol a lleol yw ail gartrefi yn bennaf oll, a dylai Llywodraeth Cymru feithrin atebion polisi rhanbarthol a lleol wrth ganiatáu amrywiadau polisi oddi mewn i fframwaith genedlaethol. Dylai atebion polisi cyhoeddus fod yn ddigon hyblyg fel bod modd eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd mewn siroedd a chymunedau gwahanol yn ôl anghenion rhanbarthol a lleol.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Dylai atebion polisi nid yn unig edrych ar y mater ail gartrefi, ond hefyd edrych ar yr atebion tai cyffredinol gan gynnwys y sector rhentu preifat a chynyddu mynediad at fwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy. Dylai atebion polisi hefyd edrych ar ddatblygiad economaidd a chynigion i ddenu cyflogaeth o ansawdd da a fyddai'n cynyddu incwm aelwydydd gan alluogi pobl i fforddio parhau i fyw a gweithio yn y cymunedau lleol y mae'r argyfwng tai gwledig yn effeithio arnynt. Mae pob ardal yn wahanol, ac ni fydd yr un set o bolisïau rhanbarthol na chenedlaethol yn cynnig yr atebion pwrpasol sydd eu hangen yn lleol sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thai a wynebwr gan gymunedau unigol.

Argymhelliad 2 – rheoli niferoedd ail gartrefi

Mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan ail gartrefi, dylid gosod nod polisi cyhoeddus o geisio sefydlogrwydd yn eu niferoedd, neu ostyngiad graddol dros nifer o flynyddoedd.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Mae tystiolaeth a phrofiad yn dangos bod gwead cymunedau yn dechrau dadrithio pan nad yw pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu fforddio rhentu neu brynu tai fforddiadwy yn y cymunedau lle cawsant eu magu. Pan fo gennych enghreifftiau lle mae cyn-dai Cyngor ar y farchnad am dros £385k, pa obaith y mae hyn yn ei roi i bobl leol? Hefyd, yn ôl data 'CACI Paycheck' a 'Land Registry Price Paid', mewn pentrefi fel Abersoch, mae 95.3% o'r boblogaeth wedi'u prisiau allan o'r farchnad dai, yn methu â fforddio eu cartref cyntaf. Fodd bynnag, mae angen ymchwil pellach i bolisi cyhoeddus ar sut i weithio allan beth fydd y pwynt tyngedfennol pan fydd gormod o ail gartrefi wedi'u cyflawni mewn cymuned, pentref neu bentrefan penodol. Byddai angen i unrhyw bolisi fod

- yn hyblyg,

- wedi'i fireinio i fynd i'r afael ag amgylchiadau lleol
- heb fod yn fiwrocrataidd i'w weinyddu ac
- yn hawdd i'w ddeall

Argymhelliad 3 – diffinio ail gartrefi

Er mwyn hwyluso penderfyniadau polisi wedi'u seilio ar wybodaeth wrthrychol, mae angen diffinio ail gartrefi yn well. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried sawl ffordd o wneud hyn, ond gyda hyn mewn golwg, dylid cyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Cartrefi Gwyliau.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Mae angen mabwysiadu diffiniad syml, na fydd yn cael ei ddehongli'n wahanol. Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer tai haf angen adnoddau digonol i gofrestru eiddo yn y lle cyntaf ac yna adnoddau i fonitro cydymffurfiaeth ag archwiliadau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau tân, iechyd a diogelwch ac ati.

Argymhelliad 4 – ymateb i Brexit a Covid-19

Er mwyn ceisio lliniaru effeithiau anochel Brexit a Covid-19 ar y farchnad dai mewn cymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, dylai Llywodraeth Cymru weithredu mewn modd mwy rhagweithiol, gan gymryd camau mwy radical nag a gymerid fel arall.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Mae gallu pobl i weithio gartref wedi'i hwyluso gan dechnoleg ac mae gweithio hybrid yn gynnig cyflogaeth deniadol. Yn gynyddol rydym wedi gweld bod mwy o bobl yn symud o ardaloedd trefol i fyw mewn cymunedau gwledig ac arfordirol i gael gwell ansawdd bywyd. Heb os, mae'r mewnfudo hwn wedi arwain at yr argyfwng tai gwledig sy'n ein hwynebu'n awr.

Argymhelliad 5 – yr angen am gamau gweithredu ar draws ystod o feysydd polisi

Dylid cyflwyno polisïau ar draws ystod o feysydd polisi, ac yn benodol yn y tri maes canlynol: polisïau cynllunio uniongyrchol, polisïau cynllunio anuniongyrchol, a pholisïau trethiannol.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Mae angen ymyrraeth polisi hefyd i gefnogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Argymhelliad 6 - Premiwm y Dreth Gyngor Lleol

Dylai cynghorau sir sy'n canfod fod ail gartrefi yn broblem gymdeithasol ddifrifol ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn, gan godi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi i 100%.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Hyd yn hyn, mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn fwy rhagweithiol nag eraill o ran sut y maent wedi defnyddio premiwm y dreth gyngor o ail gartrefi. Mae rhai wedi targedu eiddo sy'n wag yn y tymor canolig – hir, a dod â nhw yn ôl i ddefnydd, trwy amrywiaeth o ddulliau; mae eraill wedi clustnodi arian tuag at alluogi perchnogion tai am y tro cyntaf i brynu eu cartrefi newydd drwy Gymorth Prynu, rhan ecwiti ac ati. Nid yw'n glir sut yn union y mae awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio'r arian ychwanegol a dderbyniwyd drwy'r premiwm – faint sy'n cael ei wario ar dai, a faint sy'n mynd i mewn i goffrau canolog y Cyngor. Dylai'r incwm a godir drwy'r pwerau trethu ychwanegol gael ei gyfeirio at fynd i'r afael â'r anghenion tai lleol ac ni ddylid ei ddefnyddio tuag at ariannu blaenoriaethau eraill y cyngor.

Ar ei ben ei hun, ni fydd yr argymhelliad hwn yn cyflawni'r canlyniad disgwyledig o ffrwyno nifer yr ail gartrefi, gan fod y prynwyr yn aml yn meddu ar yr incwm eisoes i dalu am y Premiwm Treth y Cyngor uwch. Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, bydd angen i'r ymyrraeth i'r farchnad dai lleol fod drwy newidiadau mewn cyfraith cynllunio.

Argymhelliad 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes

Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â phosibiliad eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Y ddadl y byddai rhai yn ei gwneud yw pam y dylid eithrio llety hunanarlwyo o'r system rhyddhad ardrethi a'i wahaniaethu oddi wrth sectorau eraill. Dylai pob busnes gyfrannu rhywfaint o dreth, ond a fyddai'n bosibl i ddarparwyr llety hunan ddarpar weithio ar system sy'n seiliedig ar naill ai:

- lefelau deiliadaeth ac felly bydd yn darparu lefel arall o atebolrwydd o ran defnydd; a/neu
- treth dwristiaeth lle codir % treth ar ben pob noson y caiff yr eiddo ei rentu.

Rydym yn argymhell bod ymchwil ychwanegol yn cael ei wneud yn un o'r ardaloedd peilot.

Argymhelliad 8 – Treth trafodiadau tir

Dylai fod modd amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir mewn un ai siroedd neu wardiau llywodraeth leol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er mwyn cyflawni hyn:

- Gallai Llywodraeth Cymru ddirprwyo i gynghorau sir hawl i amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir, gan greu'r potensial i ychwanegu cyfradd bellach at y dreth o hyd at 4% o werth yr ail eiddo mewn rhai rhannau o Gymru.
- Neu, gallai Llywodraeth Cymru amrywio cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir yn y dull hwn mewn wardiau llywodraeth leol penodol yr effeithir arnynt yn ddwys gan y broblem ail gartrefi.

Ymateb: Yn cefnogi'r ddau argymhelliad, lle mae'r penderfyniad yn cael ei gymhwyso'n lleol. Disgwylir y byddai angen lefel gronynnog o ddata i ddod i benderfyniad a ddylid ysgogi penderfyniad o'r fath. Byddai angen ymagwedd gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol lle mae ail gartrefi yn broblem ddifrifol. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae erydu wedi bod mewn swyddogaethau tai strategol ar draws awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai lle mae stoc tai'r Cyngor wedi'i throsglwyddo, byddai angen mynd i'r afael â'r bwlch capasiti a sgiliau hwn.

Argymhelliad 9 – Polisi 'Tai Marchnad Lleol' cynghorau sir Gwynedd ac Ynys Môn

Dylai Cynghorau Gwynedd a Môn ystyried ymestyn polisi 'Tai Marchnad Lleol' Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i gymunedau arfordirol a bregus eraill yn y ddwy sir lle ceir dwysedd o ail gartrefi ochr-yn-ochr â phroblem fforddiadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru graffu ar y polisi 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn ystyried a allai polisi o'r fath fod yn llesol ar gyfer rhai o'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio neu gryfhau cyfarwyddyd cynllunio er mwyn cefnogi neu hwyluso ymestyn y polisi hwn neu bolisïau cyffelyb

Ymateb: Rydym yn gyfarwydd ac yn gefnogol o'r 'Cynllun Tai Marchnad Lleol' a weithredir yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Fodd bynnag, mae rhai materion yn ymwneud ag argaeledd

morgeisi, y mae angen mynd i'r afael â hwy. Rydym yn gweinyddu Cofrestr Tai Fforddiadwy **Tai Teg** ar draws gogledd Cymru a Phowys ac wedi profi problemau gydag unigolion yn ceisio cael mynediad at forgeisi ar gyfer unedau fforddiadwy sydd â chyfyngiad A106 ar yr eiddo. Ymddengys fod nifer y benthycwyr sy'n rhoi benthyc ar eiddo fforddiadwy yn isel, felly mae dewis cyfyngedig i brynwyr wrth chwilio am forgais. Yn ogystal, nid yw cwmnïau morgeisi a fyddai'n rhoi benthyc yn cymryd y risg o gynnig morgeisi ar sawl uned ar un datblygiad. Byddai trafodaethau gyda benthycwyr morgeisi blaenllaw yn ddefnyddiol, wedi'u hwyluso gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10 – creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygiadau) (Cymru) 2016 drwy gyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad.

Argymhelliad 11 – treialu dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal treial mewn cymuned neu glwstwr o gymunedau yr effeithir yn ddwys arnynt gan ail gartrefi, a lle ceir cefnogaeth gymunedol ar gyfer hynny, er mwyn gwerthuso ymarferoldeb ac effaith cyflwyno dosbarth defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi. Byddai hyn yn gwneud trosi tŷ annedd yn ail gartref yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio pan fo canran yr ail gartrefi yn y stoc dai mewn cymuned neilltuol yn croesi trothwy benodol.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad y dylid cael astudiaeth ddichonoldeb fel rhan o'r peilot, gan dargedu cymuned benodol o bosibl yn y lle cyntaf cyn ehangu'r ardal ddaearyddol.

Argymhelliad 12 – sefydlu Comisiwn i wneud argymhellion am ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Comisiwn er mwyn gwneud argymhellion yn ymateb i'r heriau ieithyddol a fydd yn wynebu ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol ar hyn o bryd yn wyneb ailstrwythuro sosio-economaidd a chymdeithasol tebygol. Dylai'r Comisiwn fynd i'r afael yn benodol â heriau'r cyd-destun ôl-Brexit ac ôl-Covid gyda'r nod o warchod, sefydlogi a meithrin dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol yng Nghymru.

Ymateb: Cefnogi'r argymhelliad. Rydym yn croesawu'r ddogfen ymgynghori ynghylch y Cynllun Tai Cymunedol Cymraeg arfaethedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 sy'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o sefydlu Comisiwn ac a fydd yn ymateb yn llawn i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y papur. Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 4.

Mae Grŵp Cynefin yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad i ail gartrefi gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Mae'n hanfodol bwysig bod yr ymyraethau hyn yn cael ei gweithredu a'u cefnogi ar lefel Genedlaethol, Ranbarthol a Lleol.

Shan L Williams

Prif Weithredwraig, Grŵp Cynefin

14/01/22

Gwybodaeth ar gyfer gwneuthurwyr polisïau: **Barn y gymuned ac effaith ail gartrefi yn y Gymru wledig**

Mae'r cyhoeddiad diweddar 'Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth' (Powel et al., 2021)ⁱ, yn adolygiad amserol o'r gronfa dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch ail gartrefi a'u heffaith yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn tanlinellu profiad gwirioneddol cymuned Bro Machno yng Nghonwy fel enghraifft o sut y mae stoc tai crebachol yn fygythiad difrifol i ddiwylliant Cymraeg a gwead y gymuned.

Mae Bro Machno'n gymuned gref gyda thraddodiad ardderchog o ofalu am ei gilydd o'r crud i'r bedd. Mae pwysau o'r farchnad dai, fodd bynnag, yn peri pryder o fewn y gymuned ac y mae'r sefyllfa'n dirywio'n gyflym.

Mae 446 gofod aelwyd ym Mro Machno, ond â rhagor na thraean o'r tai y tu hwnt i afael y genhedlaeth nesaf mae trothwy hyfywedd y gymuned yn prysur agosáu. Mae yna ras i geisio achub canol y pentref, sydd wedi'i wagio trwy gymysgedd o dai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi. Gyda stoc tai ym Mro 'n cael ei werthu i'r cynigydd uchaf, mae sylfaen bywyd cymunedol yn yr ardal wledig hon yn gynyddol ansad ac ansicr.

Ffurfiwyd Partneriaeth Tai Bro Machno gan gyfuniad o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cyrff cymunedol a phreswylwyr lleol, ac y mae'n ymchwilio i amryw ddulliau helpu cynaliadwyedd cymunedau sy'n dioddef gan yr effeithiau hyn.


Gobeithir y gall gwaith y Partneriaeth wrth iddi fynd i'r afael â'r problemau hyn gynnig gwybodaeth a thystiolaeth gyd-destunol ynghylch cyffredinrwydd, goblygiadau ac effaith perchnogaeth ail gartrefi yng Nghymru - a sbarduno Llywodraeth Cymru i weithredu, efallai. Mae gan Lywodraeth Cymru dylanwad a'r cyfle i fynd i'r afael â'r problemau hyn yng Nghonwy, ac ar gyfer y cymunedau hynny ledled y genedl yr effeithiwyd arnynt.

Paratowyd y papur gwybodaeth Mae'r tîm Dyfodol Gwledig yn gweithio ar y cyd â'r gymuned fel rhan o raglen Dyfodol Gwledig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd Dyfodol Gwledig, a gynhelir gan Seren Wae a Phartneriaeth BRO, yn cynorthwyo 14 cymuned ledled y Gymru wledig.

Paratowyd y papur gwybodaeth hwn gan y tîm Dyfodol Gwledig yn gweithio ar y cyd â Phartneriaeth Tai Bro Machno. Mae'r tîm Dyfodol Gwledig yn gweithio ar y cyd â'r gymuned, fel rhan o raglen Dyfodol Gwledig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd Dyfodol Gwledig, a gynhelir gan Seren Wye a Phartneriaeth BRO, yn cynorthwyo 14 cymuned ledled y Gymru wledig.

Effaith perchnogaeth ail gartrefi ar Fro Machno

Mae'r adolygiad tystiolaeth ynghylch ail gartrefi'n tanlinellu cyffredinrwydd trawiadol ail gartrefi yn rhai mannau neilltuol (Powel 2021, t4). Mae Bro Machno'n ardal o'r fath. Mae pwysau o'r farchnad dai yn peri pryder o fewn y gymuned ac y mae'r sefyllfa'n dirywio'n gyflym. O gyfanswm o **446 aelwyd** mae:



Â rhagor na thraean o dai Bro Machno y tu hwnt i afael y genhedlaeth nesaf mae trothwy hyfywedd y gymuned yn prysur agosáu. Fel dominos yn cwmpo mae gan yr argyfwng tai effaith olynol ar heriau gwledig pwysig eraill, fel economi gwledig bregus, gyda llai o gyfleoedd cyflogaeth ac wedi'i nodweddu gan gyflogau bychain, gwaith tymhorol ac enillion ansefydlog, a chost byw uwch oherwydd y premiwm gwledig a gwaeth mynediad at wasanaethau.

Mae gan hyn effaith ddifrifol ar y rhwydwaith o berthnasau cymunedol ar draws cenedlaethau, hanfodol ar gyfer diwylliant ffyniannus a'r Gymraeg: ond wrth gwrs mae effaith negyddol ar ddichonoldeb ffyniant a chadernid cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gymuned oll yn dioddef gan straen a phryder wrth ystyried ymhle fydd ei chenedlaeth nesaf yn byw.

Mae gwerthu stoc tai i'r cynigydd uchaf yn atal cenedlaethau iau rhag ailboblogi'r pentref, felly mae dyfodol y gymuned yn ansad ac ansicr. Ar hyn o bryd mae yna ras i geisio achub canol y pentref, sydd wedi'i wagio trwy gymysgedd o dai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi.

Yng ngweithgareddau ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd gan y rhaglen Dyfodol Gwledig, clustnododd y gymuned heriau pwysig i gynaliadwyedd Bro Machno:

- Y nifer eithriadol fawr o dai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi;
- Y diffyg anheddau o fewn cyrraedd teuluoedd a phobl ifanc;
- Yr agendor rhwng costau tai a lefelau enillion lleol;
- Nad oes yr un tŷ ar gael i'w rentu gan bobl leol;
- Bod diffyg tai unllawr a llety lloches fforddiadwy ar gyfer yr henoed;
- Bod angen cymysgedd o gartrefi er mwyn i'r gymuned ffynnu a chyfyngu ar allfudiad o'r pentref.

Er gwaethaf heriau cydnabyddedig wrth ynysu effaith ail gartrefi ar gymunedau, yr hyn sy'n amlwg yw effaith gyfun problemau gwledig sydd, â'i gilydd, yn fygythiad mawr i gynaliadwyedd pentrefi a'r diwylliant Cymraeg, sydd yn rhwydweithiau o berthnasau ar draws cenedlaethau, hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion llesiant Lywodraeth Cymru a ddatgenir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhaid i benderfyniadau polisi tai ganlyn ar fyrder, fel y dengys profiad byw Bro Machno. Gweler yr argymhellion isod.

Dewisiadau a argymhellir

Mae angen brys am:

1. Fynd i'r afael â'r nifer eithriadol fawr o dai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi er mwyn cynnal y cyflenwad stoc tai yn y cymunedau a effeithiwyd fwyaf:

- Sefydlu gofyniad statudol i gofrestru tai gwyliau ar raddfa genedlaethol.
- Newid deddfwriaeth gynllunio fel bo angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio tŷ'n dŷ gwyliau.
- Newid deddfwriaeth dai fel bo angen trwydded i ddefnyddio fel tŷ gwyliau, er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cyrraedd safonau derbyniol.
- Newid diffiniad datblygu yn nhermau cynllunio i gynnwys 'newid defnydd' annedd yn eiddo ar osod am dymor byr.
- Newid trefn trethu ail gartrefi a thai gwyliau.
- Atal pobl rhag prynu ail gartrefi mewn ardal fel sydd wedi digwydd yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

2. Mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy ac anheddau rhent:

- Sefydlu dulliau amddiffyn y cymunedau a effeithir waethaf rhag cael eu prisio allan o'r farchnad tai lleol oherwydd galw mawr o oddi allan. Sicrhau na wthir prisiau tai y tu hwnt i gyrraedd preswylwyr.
- Adeiladu rhagor o gartrefi fforddiadwy safonol a/neu ragor o dai cymdeithasol safonol.
- Datblygu dull rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth brynu a gwerthu cartrefi.
- Darparu tai ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc.

3. Helpu a galluogi cymunedau i weithredu'n adeiladol:

- Creu cronfa i gynorthwyo'r gymuned i brynu cartrefi sy'n dod ar y farchnad agored â threfniadau cyfradd forgais ffafriol er mwyn sicrhau bod tai'n aros yn fforddiadwy.
- Cynyddu argaeledd y stoc tai presennol trwy greu cynllun ernes ar gyfer pobl ifanc.
- Datblygu cynlluniau prynu perchnogaeth ar y cyd.
- Darparu cymorthdaliadau i helpu pobl leol i brynu neu adnewyddu eiddo.

ⁱ Powel, D., O'Prey, L., Grunhunt, S., Wyn Edwards, C., a Cunnington Wynn, L., (2021). Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth. <https://llyw.cymru/gwaith-ymchwil-ar-ail-gartrefi-crynodeb-or-adolygiad-or-dystiolaeth-html> [Cafwyd mynediad 21 Medi 2021]

Dim eiliad i'w golli

Medi 2021

Mynd i'r afael â phwnc tai Bro Machno: cyfrannu at y gronfa dystiolaeth ynghylch effaith ail gartrefi ar gymunedau gwledig Cymraeg





Cynnwys

Rhagair	3
Bro Machno – Ymateb achos astudiaeth.....	4
Newidiadau yn y boblogaeth	4
Tai.....	5
Perchnogaeth Cartrefi	5
Pris tai yn ôl math (£)	6
Llais y Gymuned	6
Effaith perchnogaeth ail gartrefi ar Fro Machno.....	8
Partneriaeth Tai Bro Machno 2021.....	9
Anghenion Tai presennol Bro Machno	Error! Bookmark not defined.
Prif bynciau a godwyd.....	9
Polisiâu a chynllunio a datblygu ymyriadau.....	10
Ymyriadau.....	11
Casgliad.....	12


Rhagair

Mae'r cyhoeddiad diweddar 'Gwaith ymchwil ar ail gartrefi: crynodeb o'r adolygiad o'r dystiolaeth' (Powel et al., 2021),¹ yn adolygiad amserol o'r gronfa dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch ail gartrefi a'u heffaith yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn tanlinellu profiad gwirioneddol cymuned Bro Machno yng Nghonwy fel enghraifft o sut y mae stoc tai crebachol yn fygythiad difrifol i ddiwylliant Cymraeg a gwead y gymuned.

Mae Bro Machno'n gymuned gref gyda thraddodiad ardderchog o ofalu am ei gilydd o'r crud i'r bedd. Mae pwysau o'r farchnad dai, fodd bynnag, yn peri pryder o fewn y gymuned ac y mae'r sefyllfa'n dirywio'n gyflym.

Mae 446 gofod aelwyd ym Mro Machno, ond efo chwarter o'r tai y tu hwnt i afael y genhedlaeth nesaf mae trothwy hyfywedd y gymuned yn prysur agosáu. Mae yna ras i geisio achub canol y pentref, sydd wedi'i wagio trwy gymysgedd o dai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi. Gyda stoc tai ym Mro Machno'n cael ei werthu i'r cynigydd uchaf, mae sylfaen bywyd cymunedol yn yr ardal wledig hon yn gynyddol ansad ac ansicr.



Paratowyd y papur gwybodaeth hwn gan dîm Dyfodol Gwledig mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Tai Bro Machno. Ffurfiwyd Partneriaeth Tai Bro Machno gan gyfuniad o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cyrff cymunedol a phreswylwyr lleol, ac y mae'n ymchwilio i amryw ddulliau helpu cynaliadwyedd cymunedau sy'n dioddef gan yr effeithiau hyn.


Cynigir canfyddiadau a gwaith y Bartneriaeth yma megis gwybodaeth a thystiolaeth gyd-destunol ynghylch cyffredinrwydd, goblygiadau ac effaith perchnogaeth ail gartrefi yng Nghymru.

Mae'r tîm Dyfodol Gwledig yn gweithio ar y cyd â'r gymuned fel rhan o raglen Dyfodol Gwledig Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd Dyfodol Gwledig, a gynhelir gan Seren Wae a Phartneriaeth BRO, yn cynorthwyo 14 cymuned ledled y Gymru wledig.

Bro Machno – Ymateb achos astudiaeth

Mae'r adolygiad tystiolaeth Ymchwil Ynghylch Ail Gartrefi, a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Gorffennaf 2021), yn tanlinellu cyffredinrwydd uwch ail gartrefi yn rhai mannau neilltuol yng Nghymru. Mae Bro Machno, ym Mharc Cenedlaethol Eryri, yn ardal o'r fath. Mae pwnc ail gartrefi yn un difrifol ar gyfer y gymuned, gan effeithio ar argaeledd tai ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Tanlinellodd ymchwil a wnaed gan alluogydd Tai Gwledig Cyngor Conwy (2020) fod "canran fawr o dai gwyliau, ail gartrefi a chartrefi gweigion yn yr ardal ar 36%, ac y mae 51.5% o bobl leol wedi'u prasio allan o'r farchnad dai". O gyfanswm o 446 aelwyd, mae:



Mae Dyffryn Machno yn Ward Uwch Conwy, sydd â phoblogaeth o 1,465 o bobl. Mae ffin y ward yn cynnwys 18,000 hectar a bernir bod y pentrefi yn rhai gwledig mewn lleoliad gwasgaredig. Mae Bro Machno'n Anheddiad Eilaidd, lle mae'n rhaid i 50% o dai ar safleoedd o 2 annedd neu ragor fod ar gyfer anghenion fforddiadwy/lleol.

Mae rhagor na hanner pobl Penmachno yn rhugl eu Cymraeg, sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghonwy (20.6%). Mae enillion canolrifol pobl yn Uwch Conwy'n cymharu'n ffafriol â gweddill Conwy, ond yn 5% yn llai na chyfartaledd y DU. Mae 33.5% o aelwydydd Uwch Conwy yn derbyn llai na 60% enillion canolrifol y DU, sydd yn cyfateb i £17,173.


Newidiadau yn y boblogaeth

- Yr oedd gan Ward Uwch Conwy boblogaeth o 1,465 yn 2011 – cynnydd o 56.2% er 1991, sy'n awgrymu twf cryf.
- O gymharu ag ardaloedd gwledig eraill Cymru, mae gan Uwch Conwy ddwysedd poblogaeth llawer llai sef 0.08 person/hectar yn 2011.
- Mae'r boblogaeth yn rhuglach eu Cymraeg nag ardaloedd gwledig eraill Cymru, ond bu gostyngiad o 69.8% yn 1991 i 53.4% yn 2011.
- Mae canran y bobl ifanc wedi gostwng o 21% yn 1991 i 14% ynghyd â chynnydd cyfatebol yn yr oedrannau hŷn.


Tai

- Mae graddau perchnogaeth wedi cynyddu rhwng 1991 a 2011 (o 57% i 68%) ond y maent yn llai na'r cyfartaledd gwledig (73% yn 2011) ac y mae deiliadaeth rhent preifat wedi gostwng o 31% i 17%.
- Mae 33.5% o aelwydydd yn derbyn llai na 60% o enillion canolrifol y DU - £17 mil.
- Cwmpodd lefelau amddifadedd enillion rhwng 2014 a 2019 a buont yn gyson is na chyfartaledd Cymru (9% o gymharu ag 16% yn 2019).
- Mae prisiau tai wedi codi ar gyfer pob math o dŷ rhwng 1995 a 2019, gyda thai sengl yn cynyddu fwyaf (o £62,500 i £309,371).
- Daeth y farchnad dai'n fwy cyfnewidiol yn 2007 gan arwain at brisiau anwadal ar gyfer pob math o dŷ.

Perchnogaeth Cartrefi



Pris tŷ yn ôl math (£)



Llais y Gymuned

Mae profiad byw'r gymuned leol yn ganolog ar gyfer y sylfaen dystiolaeth. Amlygwyd problemau cartrefu gan gymuned Bro Machno trwy amryw ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd gan Ddyfodol Gwledig er 2018.

Mae a wnelo'r rhain â'r effaith ar bobl ifanc, teuluoedd ifainc a'r genhedlaeth nesaf, yn nhermau medru cael rhywle lleol i fyw ynddo yn eu cymuned. Mae crebachiad y stoc tai'n gwaethygu'r sefyllfa. Yn y cyfamser, mae poblogaeth yr ysgol yn ehangu, a'r gymuned yn tyfu, gan fod ag angen cymysgedd amrywiol o gartrefi i'r gymuned fedru ffynnu a chyfyngu ar symudiad.

Trafodwyd yr awydd helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn y pentref hefyd, trwy ddarparu gofal henoed, gydag angen cyfatebol am dai unllawr neu lety lloches.

I grynhoi, y prif faterion a drafodwyd ym Mro Machno er 2018 fu:

- mynd i'r afael â nifer eithriadol fawr y tai gweigion, tai gwyliau ac ail gartrefi.
- mynd i'r afael ag angen tai ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc.
- mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy a thai rhent.
- Ymchwilio i gyfleoedd i'r gymuned brynu tai i'w rhentu i bobl leol.

“Y dyfodol yw gwneud pob ymdrech i atal y tai rhag mynd yn dai gwyliau neu Airbnb neu’n bentref gwyliau a diwedd ein cymdeithas.”

“Tai ar gyfer pobl leol. Datrys problem tai gwyliau”.

“Mentrau i lenwi’r tai gweigion yn y dyffryn”.

“Angen datrys y broblem tai gwyliau, dim tai ar gyfer y genhedlaeth nesaf”.

“Tai ar gyfer pobl leol. Mynnu y defnyddir eiddo gwag”.

“Cynifer o dai wedi’u gadael yn wag a heb eu trwsio. Cartrefi dichonol ar gyfer teuluoedd newydd”.

“Angen ateb problem tai. Cynnal arolwg yna creu grŵp llywio i geisio ateb anghenion. Angen pendant am gymorth i’r bobl ifanc geisio prynu tai yn y pentref”.

“Tai’n rhy ddrud at gyfer pobl ifanc”.

“Cynllun prynu tai ar y cyd â chymorth y cyngor cymuned - enghraifft Cotswold”.

“Ceisio cael mynediad at arian i alluogi pobl leol i brynu tai yn y pentref: cydberchnogaeth ‘cymorth i brynu”.

“Angen rheoli nifer y tai haf, yn enwedig y rhai a brynir gan berchnogion o’r tu allan i’r pentref. Mae arnom angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol”.

“Mae llawer o blant yn y pentref hwn, gormod o bobl yn cadw tai’n wag. Lle fydd y plant yn byw yn y dyfodol?”.

Yr oedd y problemau pwysig ynghylch tai a amlygwyd mewn cyfarfodydd cymunedol yn 2019 yn cynnwys:

- Nifer anghymesur ail gartrefi.
- Gwaethygu problemau parcio yn ystod y tymor ymwelwyr prysur.
- Prisiau tai mawrion.
- Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo yn y pentref yn dai rhes bychain ac yn dai sengl mawrion. Wrth i deuluoedd gynyddu mae'r eiddo llai yn anaddas ond yr eiddo mwy'n rhy ddrud.
- Angen tir ar gyfer hunan-adeiladu. Gan nad oes modd fforddio cartrefi hoffai rhai preswylwyr fedru adeiladu eu cartrefi cynaliadwy eu hunain.
- Diffyg dewisiadau llety ar gyfer pobl hŷn. Collwyd tai unllawr cymdeithasol o dan Hawl Prynu / Hawl Caffael ac ni chafwyd eraill yn eu lle.
- Diffyg llety ar gyfer teuluoedd. Rhaid i'r rhai sydd ag angen tai mwy edrych ar brynu ym Mangor, er enghraifft, am dai mwy fforddiadwy. Ar hyn o bryd mae pris tŷ mwy ym Mhenmachno tua £400,000. Nid oes modd fforddio rhai o'r tai gweigion.

Effaith perchnogaeth ail gartrefi ar Fro Machno

Er gwaethaf her ynysu effaith ail gartrefi ar gymunedau, yr hyn sy'n amlwg yw effaith gyfun problemau gwledig sydd, â'i gilydd, yn fygythiad mawr i gynaliadwyedd pentrefi a'r diwylliant Cymraeg, sydd yn rhwydweithiau o berthnasau ar draws cenedlaethau, hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae profiad byw Bro Machno yn dangos bod angen gwneud penderfyniadau polisi tai ar fyrder.

Mae sawl problem yn cyfrannu at yr heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig, a all gynnwys:

- Ansicrwydd swyddi, enillion bychain, a gwaith tymhorol rhan-amser
- Diffyg gwasanaethau, cludiant cyhoeddus anaml
- Diffyg cartrefi fforddiadwy
- Diffyg cyfleoedd cyflogaeth
- Mynediad at wasanaethau cyhoeddus
- Band eang gwael

(Gofynnodd yr hwylusydd: beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Y sbwriel gan ei fod yn effeithio ar yr anifeiliaid – plentyn 9-11 oed

(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Yn gyntaf, mae gennyn ni lygredd, ac os yw hwnnw'n mynd i'r môr gall lygru'r blaned. Gall achosi mwy o danau, mwy o stormydd ac mae hynny'n effeithio arnom ni. (Gofynnodd yr hwylusydd: Lle mae'r sbwriel?) Ni yw un o'r goreuon am beidio llygru, ond rydw i'n gweld pobl yn gollwng papurau ar y llawr wrth iddyn nhw ddod o'r siop. (Gofynnodd yr hwylusydd: Beth allwn ni ei wneud am hyn, beth yw dy syniadau di?) Efallai y gallen ni ychwanegu llai o blastig i rai pethau a all ddefnyddio cardfwrdd, oherwydd mae yna lot o bethau plastig mewn siopau wrth ichi gerdded i mewn – plentyn 9-11 oed

Stopio defnyddio plastig, rhoi dirwy i bobl am lygru a gellid rhoi camerâu ym mhobman ar bob stryd – plentyn 9-11 oed

Allwn ni ddim gwahardd plastig, mae'n siŵr bod dal angen ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol bethau yn does, ond gallwn gael gwared ar rywffaint o blastig. Mae angen i ni fod y wlad orau yn y byd o ran ailgylchu, fel na fydd dim sbwriel yn y strydoedd – plentyn 9-11 oed

C) Ac; apeliadau i weithredu yn erbyn y pethau sy'n peryglu'r amgylchedd ym marn y plant a phobl ifanc.

Roedd sylwadau a gasglwyd o'r mapiau neu a rannwyd ar lafar yn cynnwys:

Stopio lladd anifeiliaid a stopio defnyddio gwellt plastig – plentyn 9-11 oed

Cael gwared ar rai plastigau – plentyn 9-11 oed

Ffyrdd haws o ailgylchu a llai o blastig mewn pecynnau yn archfarchnadoedd Cymru – cyfrannwr a addysgir gartref

Mwy o goed, ddylen ni ddim torri'r holl goed – plentyn 9-11 oed

(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?)

Dadgoedwigo. (Gofynnodd yr hwylusydd: Yng Nghymru neu yn y byd?) Yn y byd. (Gofynnodd yr hwylusydd: Ydi hynny'n ein heffeithio ni yma yng

Nghymru?) Ydi. (Gofynnodd yr hwylusydd: Beth ddylen ni fod yn ei wneud?) Yn hytrach na thorri coed, dylen ni fod yn eu plannu – plentyn 9-11 oed



Llai o danau gwyllt oherwydd ein bod ni'n cael lot o danau gwyllt yn y mynyddoedd. Maen nhw'n lladd anifeiliaid ac yn beryg i bobl – plentyn 9-11 oed



(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Ceir, dydw i ddim yn eu hoffi nhw gan eu bod nhw'n llygru'r aer. Mwy o feicio a cherdded i'r ysgol, ceir trydan yn hytrach na tanwydd ffosil – plentyn 9-11 oed.

Ceir gwyrdd yn unig – adeiladu llai o ffyrdd – cyfrannwr a addysgir gartref

Rwy'n meddwl bod pethau fel y ffi o 5c am fag plastig yn gwneud gwahaniaeth mawr oherwydd cyn hynny rwy'n cofio mynd ar wyliau yn Lloegr ac roedd cymaint o wastraff plastig o'i gymharu â Chymru. Rwy'n meddwl ei fod yn bwysig inni feddwl mwy am yr amgylchedd fel yr oedden ni pan wnaeth y ffi 5c ddod i rym. Mae gennyn ni amgylchedd a thirwedd mor hardd yng Nghymru. Dwi'n meddwl ein bod ni'n gwneud llawer hefyd. Ond gallwn ni wneud mwy. – Cyfrannwr o CFfl.

Casglwyd y lluniau hyn o'r sesiynau mewn ysgolion:





Fe wnaeth cyfranogwyr mewn ysgolion rannu lluniau roeddent wedi'u tynnu o sbwriel yn eu hardal a phresenoldeb ffynonellau ynni adnewyddadwy yn eu hardal leol:




Diogelwch yng nghyd-destun ymlacio a chwarae

Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Mynegodd plant a phobl ifanc ar draws llawer o grwpiau pa mor bwysig oedd chwarae iddynt.

Geiriau sy'n crynhoi'r agweddau gorau o Gymru i mi – rhyddid, creadigrwydd, cadernid – cyfrannwr a addysgir gartref

Yn y sesiynau meithrin, roedd thema amlwg yn ymwneud â chwarae a mwynhad yn y feithrinfa ac yn eu hardal leol. Roedd y plant eisiau tynnu llun o ardd y cylch chwarae gan ddweud 'Dwi'n chwarae mewn mwd'. Roedd un o'r plant hynaf eisiau llun o flaen y 'pili-pala mawr' ac ymunodd y plant eraill gan ddweud 'chwarae gyda theganau', 'tynnu lluniau' a 'sticeri'.







Fodd bynnag roedd rhai cyfranogwyr yn cael trafferth dod o hyd i leoedd i chwarae am wahanol resymau:

Dydw i ddim wir yn mynd allan oherwydd does dim llawer i'w wneud ac efallai y bydd Mam yn symud eto. Mae gen i dri ffrind, roedd gen i ffrindiau cyn i mi symud. Rwyf wedi symud sawl gwaith (dros 5 o weithiau). Rydw i eisiau gwneud mwy o ffrindiau a hoffwn siarad â fy hen ffrindiau hefyd. Dydw i ddim wir eisiau symud eto. – plentyn 9-11 oed

Rhannodd y cyfranogwyr mewn ysgolion brofiadau a safbwyntiau ynghylch adegau pan roedd y manau hynny neu eu diogelwch personol yn teimlo dan fygythiad:



Mae llawer o ymladd o gwmpas fan hyn. Mae fel yr Hood yma. Yr holl bobl ddrwg yn eu harddegau. Maen nhw'n chwistrellu paent ar draws y lle ac fe wnaethon nhw ddifetha ein siglenni a neidio drostynt. Maen nhw'n dweud

wrthyn ni i ddod oddi ar y siglenni. Gallant fynd ymhell i ffwrdd a pheidio â dinistrio parciau'r plant. – plentyn 9-11 oed

Rydw i eisiau parc sglefrio nad yw'r bobl ifanc yn ei sbwyllo, maen nhw'n ei dyrchu ac yn ceisio ei roi ar dân o hyd. - plentyn 9-11 oed

Yn y sesiwn yn y feithrinfa, dywedodd un plentyn 'parcio fan'na' gan dynnu sylw at y ffaith mai ychydig iawn o le oedd ar gael i staff a phlant fynd heibio'n ddiogel ar y llwybr:



Fe wnaeth plant eraill dynnu sylw at lwyni oedd wedi gordyfu a oedd yn golygu nad oedd plant yn gallu cerdded ar lwybr heb symud ar y glaswellt (wrth ddal dwylo mewn parau) 'ddim yn hoffi'r pigau'.

Gofynnodd llawer o blant a phobl ifanc am gynnydd yn nifer, amrywiaeth ac ansawdd y lleoedd i dreulio amser gyda'r teulu, gan gyfeirio'n benodol at fannau awyr agored a pharciau lleol:



Dw i eisiau mwy o lefydd i fynd iddyn nhw fel llefydd i fynd ar deithiau cerdded gyda fy nheulu. Fel Pwll Pen y Fan, oherwydd dyw hwnna ddim wrth ymyl y ffordd. – plentyn 9-11 oed

Rwy'n hoffi lleoedd dan do fel amgueddfa a pharciau trampolîn. Rwy'n hoffi mynd i lefydd gyda fy nheulu. – plentyn 9-11 oed

Diwylliant – Gwell mynediad os gwelwch yn dda, ond rwyf wrth fy modd â'r cyfleoedd yng Nghymru; y cestyll, y theatrau, dawnsio - Cyfrannwr a addysgir gartref

Iechyd – gan gynnwys mynediad at iechyd meddyliol a chorfforol da

Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Yn y sesiwn rithwir gyda'r CFFI, trafodwyd iechyd meddwl yn fanwl. Dywedodd pobl ifanc fod teimlo wedi'u hynysu oherwydd y pandemig, y cyfryngau cymdeithasol a thlodi

plant yn rhesymau dros iechyd meddwl gwael. (Gweler yr adran “Amrywiaeth a Chynhwysiant” am ddata ar dlodi plant):

Mae cymorth iechyd meddwl yn rhywbeth rwy'n wirioneddol angerddol yn ei gylch. Yn fy nhraethawd hir israddedig, ysgrifennais am sut rydyn ni fel cymdeithas yn gyffredinol yn meddwl mai pobl hŷn sydd ddim eisiau dod ymlaen a siarad am y peth - efallai oherwydd agwedd draddodiadol o frathu eich tafod. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, canfu fy ymchwil mai pobl ifanc oedd â mwy o stigma tuag at iechyd meddwl, er iddynt gael eu haddysgu cymaint mwy yn ei gylch. – Cyfrannwr o CFfl

Mae COVID wedi effeithio ar lefelau iechyd meddwl. Mae iechyd meddwl pobl wedi gwaethygu yn sgil ynysu. Rydyn ni wedi bod y tu ôl i sgrin y cyfrifiadur, ac mae'r unigedd o fod i ffwrdd o'r teulu ac ati wedi gwaethygu'r broblem. – Cyfrannwr o CFfl

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan enfawr yn iechyd meddwl pobl ifanc – ond yn anffodus ydw i ddim yn gweld sut y gallwn ei blismona'n hawdd mewn gwirionedd. Mae yna rai dulliau amlwg y gellid eu defnyddio. Fel annog pobl ifanc i ddad-ddilyn pobl sydd ddim yn gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus. Ond ar ddiwedd y dydd, wn i ddim pwy sydd mewn gwirionedd yn mynd drwy eu cyfryngau cymdeithasol a dad-ddilyn y bobl sydd ddim yn gwneud iddyn nhw deimlo'n dda. Mae'n beth mor fawr yn ein bywydau ac mae'n mynd i fod yn ein bywydau nawr am byth. – Cyfrannwr o CFfl

Yn anffodus, rydym yn gweld llawer mwy o'r broblem hon [iechyd meddwl gwael] nag a welwn o ochr bositif y cyfryngau cymdeithasol. – Cyfrannwr o CFfl




Un peth y byddwn i'n ei newid pe bawn i'n gallu, pe bai gen i ryw fath o bŵer hud, fyddai sicrhau mai dim ond postio eu bywyd go iawn y gall pobl yn hytrach na'u delfryd berffaith [...] rydyn ni [defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol] yn y pen draw yn cymharu ein hunain ac yn teimlo'n anobeithiol. – Cyfrannwr o CFfl

Awgrymodd y cyfranogwyr y **gallai natur helpu i liniaru iechyd meddwl gwael:**

Rwyf wrth fy modd â chefn gwlad a thraethau – dylai mwy o bobl dreulio mwy o amser y tu allan yn fy marn i – mae hynny'n gwneud pobl yn hapus! - Cyfrannwr a addysgir gartref

Gall pobl fynd allan i fyd natur er mwyn clywed yr adar yn canu ac mae hynny'n eu helpu i dawelu'r meddwl. – plentyn 9-11 oed

Cafwyd cyfeiriadau gan gyfranogwyr mewn ysgolion am **amseroedd aros a'u hatgasedd at ysmegu** ac o dan y map o'r enw "Beth hoffech chi ei newid am Gymru?" dywedodd un cyfranogwr a addysgir gartref "Mwy o Ofalwyr" a "Mwy o Ofalwyr Gwrywaidd!":



Gall ysmegu effeithio ar eich iechyd, rwy'n gwybod ei fod yn gwneud ichi fod yn gaeth iddo, ond ddylai hyn ddim bod os yw'n effeithio ar eich iechyd. Pam ddylai ysmegu fod yn opsiwn hyn yn oed os yw'n effeithio ar eich ysgyfaint. – plentyn 9-11 oed

(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth hoffech chi ei newid?) Pan fyddwch chi'n mynd i'r ysbyty mae yna giwiau enfawr. – plentyn 9-11 oed

Mynediad at wasanaethau

Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Roedd **cau gwasanaethau** a **chanoli cyfleusterau**, **diffyg tai fforddiadwy** a **chysylltiad gwael â'r rhyngrwyd** ymhlith amrywiaeth o bethau yr oedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn eu hatal rhag bod y gorau y gallent fod.

Teimlai cyfranogwyr o grŵp y CFfl y **dylai dyfodol Cymru ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn bennaf**. Sicrhau bod gan y grŵp hwn y sicrwydd a'r gefnogaeth i allu tyfu'n hŷn a byw yn eu hardal leol gan eu bod yn teimlo bod llawer o wasanaethau'n cael eu canoli neu eu cau. Ategwyd hyn gan rai cyfranogwyr iau a oedd yn ymwybodol o gau ysbytai neu'r angen i gael gwasanaethau mwy lleol:

Rwy'n meddwl bod gan ffermwyr ifanc weledigaeth o greu Cymru well ar gyfer dyfodol pobl ifanc [...] Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y dyfodol yn saff ac yn sicr iddynt o ran gallu gweithio ym myd amaethyddiaeth. Mae llawer o bobl ifanc yn symud i ffwrdd o amaethyddiaeth ac yn gadael ardaloedd gwledig gan nad ydynt yn gallu fforddio byw yn yr ardaloedd hynny [...] Rydym wedi clywed am ysgolion bach lleol yn cau, ac rydym yn colli'r cymunedau hynny yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n gwybod bod fy ysgol leol i yn fan hyn wedi cau, ac mae'n teimlo fel eich bod yn colli'r gymuned. – Cyfrannwr o CFfl

Rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig cael rhywbeth i ddod â'r bobl ifanc hynny yn ôl i'r ardaloedd yma. – Cyfrannwr o CFfl

Rhoddais ysgol ar y map hefyd er mwyn i mi allu cerdded iddi, ac mae'n rhaid i dad godi'n gynnar iawn yn y bore i deithio i'r gwaith. Byddwn yn hoffi pe bai gennyn ni bopeth o fewn cerdded, fel ysgol leol a swyddi. – plentyn 9-11 oed

Roedd ymdeimlad bod **y cyfranogwyr yn ddiolchgar am eu hamgylchedd gwledig** ond hefyd eu bod **yn awyddus i gael cydbwysedd da wrth ei rannu gyda phobl sy'n dod o'r tu allan i'r ardal**. Eu rhesymau am hyn oedd i sicrhau parch at yr ardal a diogelwch y bobl leol a'r economi leol.

Dwi'n lwcus yn yr ardal dwi'n byw ynddi. Dwi'n byw mewn ardal wledig o Gymru ac rydym wedi bod yn ffodus iawn drwy gydol cyfnod COVID. Mae hynny wedi gwneud i mi werthfawrogi llawer mwy o'r hyn sydd o'm cwmpas. – Cyfrannwr o CFfl

(Gofynnodd yr hwylusydd: Sut ydych chi'n teimlo am fyw yma yn yr haf?) Mae sawl peth gwych am yr haf, ond mae llawer gormod o dwristiaid. – plentyn 9-11 oed

Rydyn ni eisiau i'n tref ni beidio â bod mor flêr. Mae twristiaid yn dod ac yn gadael eu sbwriel - plentyn 9-11 oed

Rhannodd y grŵp **siom ynghylch y seilwaith yn ymwneud â mynediad at y rhynggrwyd mewn ardaloedd gwledig**. Fe wnaethant egluro sut mae hyn yn cyfyngu ar eu bywydau a'u gallu i aros yn yr ardaloedd gwledig hyn oherwydd nad ydynt yn gallu gweithio'n llwyddiannus gartref, rhywbeth y maent wedi sylwi sy'n fwy cyffredin yn ddiweddar. Codwyd pryderon ganddynt hefyd ynghylch diogelwch personol pan oedd ganddynt ddiffyg signal mewn ardaloedd gwledig:

Bydd mynediad i'r rhynggrwyd yn rhywbeth sy'n effeithio ar benderfyniad pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig. Oni bai ein bod yn gallu datrys hynny, bydd yn rhaid i bobl symud i ffwrdd o'u hardaloedd oherwydd na allant weithio gartref cystal â rhywun mewn ardal drefol. – Cyfrannwr o CFfl

Yr hyn nad wyf yn ei hoffi am Gymru yw'r broblem â'r we a signal ffôn. Fel rhywun sy'n gweithio gartref ar hyn o bryd, mae'n boendod weithiau. Ond hefyd, fe wnaeth i mi deimlo'n llai diogel mynd ar deithiau cerdded yn fy ardal [...] Weithiau roedd hyn yn fy atal rhag mynd ar y teithiau cerdded hynny. – Cyfrannwr o CFfl

Codwyd materion yn ymwneud â thai fforddiadwy, gyda phryderon fod pobl ifanc yn gorfod gadael yr ardaloedd y cawsant eu magu ynddynt:

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn yn ystod y pum mlynedd nesaf yn y Senedd fod Aelodau'n gwneud yn siŵr y gofelir am bobl ifanc a bod pobl ifanc sydd wedi bod yn yr ardaloedd hynny dros y blynyddoedd yn gallu aros yn eu hardal. Neu mae cefn gwlad Cymru yn mynd i fod yn debycach i ardal i bensïynwyr yn unig. Mae lle i'r ddau grŵp oedran ym mhob ardal, ond rwy'n meddwl bod angen blaenoriaethu'r cymorth i'r genhedlaeth iau ar gyfer dyfodol Cymru. – Cyfrannwr o CFfl

Gan fy mod yn 22 oed nawr, rydw i yn y grŵp oedran a fyddai fel arfer yn edrych i brynu tŷ ond gyda phrisiau tai yn codi ac ati, mae hynny'n profi'n anodd iawn. Rwy'n gwybod y gallai'r mater hwn fod yn anodd ei ddatrys dros bum mlynedd oherwydd mae hynny'n waith mawr, ond gallaf weld nad yw ond yn mynd yn anoddach ac yn anoddach, gyda phobl ar eu gwyliau yn dod yma drwy'r amser. Prisiau uwch gydag ail gartrefi. Mae'n beth anodd ei gydbwyso yng Nghymru oherwydd dydyn ni ddim am wahanu ein hunain oddi wrth weddill y wlad. Rydyn ni eisiau i bobl ddod yma. Rydyn ni eisiau'r hwb economaidd hwnnw a'r arian gan y rhai sydd ar eu gwyliau. Ond dydyn ni ddim am i'r bobl hynny gymryd ein tai. – Cyfrannwr o CFfl

Esboniodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo o dan anfantais gan ei fod wedi dod yn weithiwr proffesiynol, er mai dyma sydd ei angen ar gymdeithas. Roedd hyn yn golygu ei fod wedi **'colli ei annibyniaeth'**:

Fel rhywun a aeth i'r brifysgol ac felly na chafodd gyflog o 16 oed hyd nes nawr (22 oed) mae'n ei gwneud hi'n anoddach fyth i brynu tŷ. Dim ond 20 oed yw fy mrawd, ac mae'n prynu tŷ ar hyn o bryd, ond dim ond gan ei fod wedi gweithio'n syth ar ôl gorffen yn yr ysgol. Gan fy mod wedi mynd i'r brifysgol, rydw i dan anfantais er bod gen i swydd broffesiynol. Does gen i ddim annibyniaeth oherwydd fy mod yn dal i fyw gartref. Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o gyflogau presennol hefyd. Gan fy mod i'n gwneud swyddi sy'n aros ar yr isafswm cyflog. Rydyn ni [cymdeithas] yn ei gwneud hi'n anodd i bobl sy'n mynd i'r brifysgol ddod allan y pen arall mewn sefyllfa ariannol dda, ond rydyn ni [cymdeithas] angen i bobl fynd i'r brifysgol i ennill y graddau a'r sgiliau angenrheidiol oherwydd y bobl hyn yw'r dyfodol. Nhw fydd yr athrawon a fydd yn addysgu ein plant. – Cyfrannwr o CFfl

Addysg a'r Gymraeg

Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.


Yn gyffredinol, mynegodd y bobl ifanc eu bod yn fodlon â'u haddysg.

Mae gan ein hysgol lawer o egni, mae'n braf ac yn bositif, maen nhw'n neis pan mae pobl yn drist – plentyn 9-11 oed

Isod, ceir person papur dwy-ochr a greodd un cyfranogwr i gynrychioli ei 'arwr' o athro.



Cyflwynodd aelod o CFfl y llun hwn gan ddweud bod ysgolion yn rhywbeth mae'n ei hoffi am Gymru:



Roedd cyfranogwyr a oedd yn cael addysg gartref am weld **mwyr o gyllid tymor hir ar gyfer addysg yn y cartref** ac fe wnaethant ofyn am **arholiadau am ddim a gwersi Cymraeg am ddim**.

Trafodwyd **prentisiaethau** yn sesiwn y CFfl. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo, er eu bod yn angenrheidiol, bod angen **mwyr o strwythur arnynt** ac y dylent **gael eu hasesu yn ôl y galw o safbwynt y cyflogwr a'r prentis**:

Rwy'n meddwl bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o ardaloedd gwledig a dweud y gwir. Gyda phrentisiaethau, beth sy'n bwysig yw cael y prentisiaethau cywir yn y lleoedd cywir. Achos rydyn ni'n gweld llawer o bobl yn mynd am brentisiaethau ond efallai nad ydyn nhw'n ddigon hen i yrru. Efallai eu bod yn ddigon hen i yrru, ond nad ydynt yn gallu gyrru. Mae dal bws ar yr amser cywir i'r lle cywir yn gwbl amhosibl yn ein hardal ni beth bynnag. Fel arfer dydyn nhw ddim yn cyrraedd o gwbl, neu maent yn cyrraedd ddwy awr yn rhy hwyr. – Cyfrannwr o CFfl

Trafodwyd y **cyfryngau cymdeithasol** hefyd, gyda'r pwyslais ar **eu cynnwys yn y cwricwlwm** er mwyn lliniaru iechyd meddwl gwael:

Rwy'n bendant yn meddwl ei bod yn bwysig i gyfryngau cymdeithasol fod yn rhan o'r cwricwlwm, ond rwyf wedi gweithio mewn ysgol lle neilltuwyd amser ar gyfer siarad am y pwnc hwn, ond roedd eu tiwtor dosbarth yn hen ddyn nad oedd yn deall y cyfryngau cymdeithasol a'i effeithiau. Felly mae'n bwysig cael cydbwysedd o ran sut i gyfleu'r neges honno'n gywir a chael y plant i gymryd sylw ohoni. – Cyfrannwr o CFfl

Roedd pobl ifanc yn gadarnhaol am addysg Gymraeg:

Rydyn ni eisiau i fwy o Gymraeg gael ei chynnwys yn y byd. – plentyn 9-11 oed

Rwy'n caru'r iaith!!! Mwy o weithgareddau Gymraeg. - Cyfrannwr a addysgir gartref

Amrywiaeth a chynhwysiant

Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Fe wnaeth pynciau hiliaeth a chydbwysedd rhwng y rhywiau godi mewn sawl grŵp, yn bennaf gyda cheisiadau i 'stopio hiliaeth' neu lle'r oedd cyfranogwyr am amlygu eu bod yn teimlo bod y pynciau hyn yn 'dal' yn broblem. Cododd y pwnc hwn ar lafar ac yn weledol:



Rwyf eisiau mwy o gynwysoldeb o ran rhywedd a hil – person ifanc a addysgir gartref

Dywedais fod bywydau du yn bwysig oherwydd ei fod yn fater pwysig. – plentyn 9-11 oed

Rwy'n meddwl mewn ysgolion eu bod nhw [teuluoedd a phlant tlotach] yn gallu cael eu trin yn wahanol. O fy mhrofiad i, efallai nad yw'r ysgol yn edrych allan amdany'n nhw gymaint â disgyblion eraill gan fod ganddyn nhw anghenion addysgol arbennig ac ati, ac wedyn maen nhw'n wynebu sefyllfaoedd anffafriol pan maen nhw'n hŷn ac yna'n costio arian ychwanegol i Gymru yn anffodus, oherwydd dylai cymdeithas fod wedi ymyrryd yn gynharach yn hytrach nag ymyrryd ar adeg o argyfwng. – Cyfrannwr o CFfl

Nid mater i ysgolion yn unig yw cynwysoldeb. Mae'n cynnwys y gymuned. Mae'n ein cynnwys ni fel cenedlaeth iau a'r cenedlaethau hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig. – Cyfrannwr o CFfl

Rwyf wedi gweld newid mawr o ran menywod mewn amaethyddiaeth yn ystod y 5 i 10 mlynedd diwethaf. Rwy'n meddwl bod y gwerthfawrogiad o'r

gwaith y mae menywod yn ei wneud o fewn amaethyddiaeth yn dod yn nes at fod yn gyfartal â dynion. [...] Rydyn ni wedi gweld yr undebau yn gwneud llawer o waith yn dangos beth mae menywod yn ei wneud mewn amaethyddiaeth. Ond yn fy marn i ddylen ni ddim gorfod gwneud hynny, fe ddylai'r sefyllfa fod yn gyfartal erbyn hyn heb fod ots pa ryw ydych chi, oherwydd ar ddiwedd y dydd gallwn ni gyd wneud y gwaith. Rwy'n falch o ddweud ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. – Cyfrannwr o CFfl

Hefyd, gan gyfeirio at **Erthygl 27: Eich hawl i safon dda o fywyd**, trafodwyd tlodi plant. Roedd plant yn **bryderus bod tlodi plant yn dal yn gyffredin** a mynegwyd sut yr oeddent yn teimlo ei fod yn effeithio ar blant a phobl ifanc heddiw:

Rwy'n meddwl ei bod yn ddrwg nad oes gan rai plant arian i gael beic. – plentyn 9-11 oed


Mae'n rhaid i mi feicio i gyrraedd yr ysgol, mae'n iawn gan nad yw'r traffig yn ddrwg. Dylai mwy o bobl feicio i'r ysgol ond ni all pawb fforddio beic, dylem wneud rhywbeth am hynny. – plentyn 9-11 oed

Creu mwy o swyddi a rhoi mwy o arian (gofynnodd yr hwylusydd: Beth wyt ti'n ei olygu, mwy o swyddi a swyddi sy'n talu'n well?) Ie, fel nad yw pobl yn mynd yn ddigartref fel y gallant fforddio'r hyn sydd ei angen arnynt. – plentyn 9-11 oed

Rwy'n teimlo bod COVID wedi gwahanu pobl rhag bod yn bobl sy'n gallu fforddio gliniadur, a phobl na all fforddio gliniadur, yn enwedig i bobl ifanc. Pan nad oes ganddynt liniadur, dydyn nhw ddim yn gallu ailgydio yn eu gwaith ysgol mor hawdd ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd pan fyddant yn mynd yn ôl i'r ysgol. Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwyf wedi gweld pa mor bell ar ei hôl hi y mae rhai plant wedi bod oherwydd na allant fforddio gliniadur, ac mae hynny'n effeithio'n wirioneddol ar eu hiechyd meddwl, nid yn unig oherwydd eu bod yn gallu gweld eu bod ar ei hôl hi, ond oherwydd eu bod yn gallu gweld na allant fforddio un fel pobl eraill. Maen nhw'n gwybod eu bod nhw wedi colli allan ar ddau fis o addysg ac maen nhw'n gofyn i'w hunain "Ble ydw i'n mynd i fod yn y dyfodol? Beth yw'r pwynt gwneud ymdrech ar gyfer fy nyfodol?" A gall yr agwedd hon achosi i'r sefyllfa fynd o ddrwg i waeth. – Cyfrannwr o CFfl

Trafnidiaeth a chysylltedd

Roedd y cyfranogwyr eisiau gwell trafnidiaeth gyhoeddus, gan gyfeirio'n benodol at well seilwaith trenau, trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o geir trydan (gweler y sylwadau uchod):






Roedd y dyfyniad hwn yn ymwneud â'r map uchod ar y chwith:

Mae angen gwell trenau a ffyrdd. Rydyn ni'n rhoi mwy o orsafoedd trên ar ein map fel bod pobl yn gallu cael y trên yn lle gyrru. Mi allai pob trac ar hyd a lled Cymru gysylltu â'i gilydd. – plentyn 9-11 oed

Cyfeiriwyd hefyd at gysylltiadau ffyrdd y de a'r gogledd (gweler y map uchod ac ar y dde):

Es i fyny i Ogledd Cymru am daith feicio fawr. Cymerodd am byth ac roedd y ffordd yn ddrwg iawn i gyrraedd yno. – plentyn 9-11 oed


Atodiad A:



Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref

Isod: Llun manwl o enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref





Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref

Isod: Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda'r lleoliad meithrin





Uchod ac isod: Enghreifftiau o fap a grëwyd gyda'r grwpiau ysgol



Welsh Cladiators

Submission to Welsh Local Government and Housing Committee

February 2022

As a group representing many hundreds of Welsh citizens caught up in the Welsh Home Fire Safety Crisis, we submit a:

- *Series of concerns about the Welsh Government's management of the crisis*
- *Request to urgently appear before the Committee.*

At the outset we would also like to stress that most homeowners have no desire to receive tax-payer monies to resolve this crisis. Many are of the clear view that it is the developers and builders who are responsible for remediating their seriously build and fire defective homes. However, in the light of the continued failure of those responsible to accept responsibility and accountability we look to the Welsh Government to urgently support us.

Our Concerns

1. In June it will be five years since the shocking Grenfell Fire Tragedy that resulted in the deaths of 72 innocent people.
2. The crisis initiated what has since become recognised as a systemic failure of the home building and government, local authority, regulatory regime
3. Millions of innocent victims who did everything right are now facing 24/7 financial and mental health pressures as developers continually seek to evade responsibility and accountability for the crisis. The impact of real lives is seriously underestimated.
4. Housing is a devolved responsibility in Wales. We are seriously lagging the UK Government when it comes to proactive & detailed plans to respond to the crisis.
5. From the outset of the scandal the Welsh Government Minister & responsible Julie James insisted that there was very little the WG could do to force developers to remediate their fire and build defective homes. Instead, Ministers made endless appeals to the moral responsibility of developers. At the same time Minister Julie James has constantly complained about how "terribly complex" the crisis is.
6. Like the Welsh Government, the UK Government and Minister Robert Jenrick's initial response was poor and subject to intense media scrutiny and victims / public criticism. The appointment in late 2021 of Michael Gove as the new Minister has resulted in a more robust and assertive approach to the failure of developers to remediate. A developers levy and series of punitive measures and sanctions have been proposed should developers fail to resolve the issues. This includes changing

the law on time limitation periods to allow leaseholders to make claims against developers. Whilst there is still much to be proven with Michael Gove's approach it represents a significant improvement on past efforts.

7. In contrast to England, in devolved housing Wales we still have no Welsh Building Fund that victims can access. Minister Julie James has announced a Building Survey and Passport Scheme that will seek to prioritise developments. A timetable and details of the scheme together with a future Welsh Building Safety Fund remain undefined and adds to the sense of frustration and despair facing many Welsh victims.
8. The Welsh Government has however been funding remediation in social housing developments – one of which (Aquila House) sits just four minutes' walk from the Senedd and was built by Laing O'Rourke. Alongside the same development is the 457 homed Celestia private development, built at the same time by LOR. Leaseholders have been battling with developer Redrow and LOR since 2010 to repair major build and fire defects. It is expected that without WG support leaseholders will have to take legal action against the firms involved. Will the WG be seeking to sue Laing O'Rourke to recover the costs of remediating their social homes sector?
9. Welsh victims have consistently been calling on the WG to find ways to sanction developers who have been benefiting from the massive house building boom in Wales. The same developers are responsible for many hundreds of build and fire defective homes in Wales. For some two and half years Minister Julie James has said she was taking legal advice. In contrast, as well as changing the law, Michael Gove has gone as far as suggesting "putting some developers out of business" should they fail to address their past defects. The contrast in approach between Wales and England is self-evident.
10. Many developments in Wales have already spent tens of thousands of pounds on intrusive surveys. They know what fire and build defectives exist. What they require is not a Building Passport but a WG backed home safety funding scheme so they can get on with the remediation. Failure to do so will only increase the pressure of the crisis:
 - a. Homeowners will be subject to massive increases in building insurance and wakening watch schemes if works are not undertaken
 - b. Legally enforceable Fire Enforcement Notices (FENs) will remain in place
 - c. Homes cannot be bought or sold except to distressed cash investors at less than 50% market value
 - d. Homeowners will receive enormous service charge increases to cover the costs of remediation. This is already happening in Wales. This will lead to bankruptcy for some distressed homeowners
 - e. Without sufficient funding homes will remain defective and unrepaired – the crisis will continue!

11. The Welsh Government has announced a scheme to assist seriously distressed homeowners by purchasing their property and renting it back to them. But this will help only a very small number of victims. In turn the WG will need to decide whether to rent out homes that are not remediated as well as being expected to pay for the remediation of homes it has purchased. The proposal shows a lack of understanding of the gravity and scale of the crisis.
12. We have also been advised that when a WBSF is established it may take up to some twelve months before a system and process can be put in place to administer and distribute monies. Many worry that it might not be until the end of 2023 that funding is made available!
13. We perceive a lack of urgency on the crisis by the Welsh Government. Various victims' groups have made positive suggestions such as the provision of Govt financial assistance – perhaps provided by the Development Bank of Wales- as one easy way of getting things moving. We have not received any response to such sensible plans.
14. Throughout the crisis victims have had to deal with a lack of Welsh media coverage and political support. Shockingly key elected representatives in Cardiff Bay have been passive in their approach to supporting victims. The contrast between UK Labour and Welsh Labour has been a source of constant frustration for victims. In the lead up to the March 2021 Welsh elections victims' groups appealed to leaders of Welsh Labour and Plaid Cymru to ring fence any future UK government monies for Welsh home fire safety victims; previous monies having been spent on Covid. Both parties declined to make such a commitment. The whole response of the Welsh political establishment to this crisis remains a source of mystery.
15. It is also clear that victims have been caught up in a devolution squabble between Cardiff Bay and Westminster over consequential funding that has resulted in delays to dealing with the crisis.
16. Welsh victims currently have no formal mechanism by which they can communicate with the Welsh Government. Appeals to Minister Julie James to set up a Welsh Zoom call and a consultation channel have not been addressed. In contrast victims in England meet regularly with a range of Westminster and UK Govt groups and Ministers. We know that the WG is also regularly meeting with other stakeholders involved in the crisis. This is unfair to the thousands of Welsh victims.
17. The plight of Welsh home fire safety victims is a stain on the Welsh Government. Many hundreds of build and fire defective homes are within a few minutes' walk of the Senedd. It is shocking that such a large group of decent, hard-working, and totally innocent homeowners are being left to carry the burden of this crisis on their own.

Our Request

We politely appeal to the Committee to appear before it at the earliest opportunity so that we can publicly raise and discuss our concerns on the crisis. The lack of urgency and the shocking impact on the mental health and lives of many decent people cannot be allowed to drag on for several more years.

With regards

Welsh Cladiators Team

Becky Ashwin

Ian Langley

Sunil Patel

Lorna Wainwright

Colin Cooper

Mark Thomas

Ruth Wainwright

Saturday, 26 February 2022

Eitem 5.6
Teitir y Prifysgol, Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth
Sipsiwn, Roma a Theithwyr
12 Ffordd y Gogledd
Caerdydd CF10 3DY

01633 509544
Rhadffon 0808 802 0025
travellingahead@tgpcymru.org.uk



**Travelling Ahead: Gypsy, Roma and Traveller Advice
& Advocacy Service**
(Mailing address)
12 North Road
Cardiff
CF10 3DY

01633 509544
Freephone 0808 802 0025
travellingahead@tgpcymru.org.uk

2 March 2022

Dear John

I am writing on behalf of our coalition of organisations, activists, and race equality groups who have been working together on Part 4 of the 'Police Bill' – the criminalisation of trespass and its impact on Gypsy and Traveller communities across Wales. You can see our recent [briefing](#) to members of the Senedd and subsequent [Travellers Times](#) article

We are writing to you as Chair of the Local Government and Housing Committee to raise concerns about the lack of progress in delivering Gypsy and Traveller sites under the duty brought in by the Housing (Wales) Act in 2016. This correspondence is also copied to Jenny Rathbone as Chair of the Equality and Social Justice Committee as many of the issues are pertinent to the work of that committee too

There are some key issues which we feel the Committee should be aware of and might want to consider:

- a. Section 103 of the Housing Act Wales brought in a duty on local authorities to periodically **assess** the needs of Gypsy and Traveller communities in their areas for residential sites or pitches and to assess the need for transit provision for families to facilitate the nomadic way of life. The duty also requires local authorities to then **meet** that need through the provision of quality sites with decent facilities which provide permanent, or temporary pitches as assessed
The Welsh Government has also made a substantial capital Sites Grant Fund available since that time for local authorities to draw down costs to build new sites as well as re-furbishing old and run-down sites
The first of the new Gypsy and Traveller Assessments (GTAA) took place in 2016, the second assessments were due to be submitted to the Minister on 24 February 2022
- b. We know there has been very slow progress, in some local authority areas there has been none – leaving families (whose need was already well known) waiting on pieces of land with no access to quality facilities, and families overcrowded and doubling up on pitches on existing sites some of which are extremely run down. Many families have sought to meet their own need; bought land and developed their own small sites many of which are struggling to gain permanent planning permission and under constant threat of enforcement

tgpcymru.org.uk



The progress on making transit sites in Wales has been even less productive – there remain ZERO transit sites even proposed, never mind developed, across Wales in 6 years of the duty being in place; this means that travelling families continue to have to encamp on whatever land they can find, without access to facilities and at the mercy of local hostility and the ensuing pressure put on elected members and local authorities to ‘move people on’

- c. There has been a lack of accountability and monitoring at all levels. For many Local Authorities, no action has been taken over the six-year period and is now mostly spurred into action by the requirement to undertake their new assessment and meet the Welsh Government deadline. We have seen local councils and elected members actively campaigning against sites and even incidents of elected members accused of hate speech and discrimination being part of the decision-making process.

All in all, this has led many people from different Gypsy and Traveller communities across Wales losing faith in this process and indeed some refusing to engage in the most recent assessments because they see no evidence that the legal measures lead to any tangible benefit

- d. Of urgent concern is the impact of the UK Government’s Police, Crime, Sentencing and Courts Bill which is likely to proceed within the next few weeks to statute with Part 4 of the Bill in place. This will criminalise trespass with an ‘intent to reside’, changing this from a civil offence as it currently is, giving new powers to the Police to evict, seize vehicles (i.e., people’s homes), fine and potentially imprison anyone found guilty under the new legislation. The Bill also includes the ‘likelihood’ of distress or damage being caused amongst the potential triggers for invoking the powers and having no other place (including being homeless) will not be an exemption. The guidance for Police Forces which accompanies this Bill already published urges the Police ‘not to gold plate human rights’ when making their decisions.

The consequences of this on nomadic life and long held cultural traditions (going back to the 15th century here in Wales as elsewhere) are catastrophic; the increased criminalisation of a protected ethnic group already overrepresented in the criminal justice system; the increased incidence of homelessness and potential for children to go into local authority care (local authorities will have to provide and pay for all of this) and further marginalisation of families who already face huge prejudice and daily as well as structural racism.

The reason this is so relevant is that with the lack of pitches available and NO transit provision available in any part of Wales, families have no other option than to encamp on public and sometimes private land – this will leave families vulnerable to prosecution because local authorities have not met their own duties to provide sites – no wonder Gypsies and Travellers have no faith in the process

- e. In these coming weeks and months, it is crucial in our view that real progress, scrutiny, and challenge, are made so that the Housing Act duty and Wales’s commitment to support and uphold the rights of Gypsy and Traveller communities in Wales translate into tangible benefits and actions

The Minister for Social Justice now has all the 22 GTAA’s in front of her and her officials for assessment and review; of those we have had sight of prior to submission very few have used the opportunity to report on progress or analyse their failure to meet the duty and how they might go about overcoming future barriers.

- f. Extremely concerning is the emerging picture already that a significant number of local authorities have failed to find enough evidence that there is a need for 'transit' provision (permanent facilities in designated places) and are instead reporting that they will opt to adopt the 'negotiated stopping model' or the similar 'Managing Unauthorised Encampments' Welsh guidance. This guidance has been in place for nearly 10 years with no monitoring or consistency of practice across Wales, many local authorities (particularly under community or political pressure) do no more than move people on to another locality where the process is then repeated. The inclusion of these approaches as the *only* provision requires commitment of time and resources; dedicated liaison officers, identifying 'stopping places', positive engagement and relationships with Gypsies and Travellers - necessarily underpinned by political will – almost none of which has been apparent or is guaranteed by the production of a 'fresh' GTAA report

Key areas for action we have identified are:

1. That Welsh Government's review of the GTAAs is used as opportunity to hold local authorities to account and to drive urgent action to make provision under the Housing Act
2. An independent review of the lack of progress to date and the impact this has had on Gypsy and Traveller families across Wales
3. Effective and supportive protocols /local arrangements developed in partnership with Gypsy and Traveller communities with local authorities and the four police forces in Wales
4. The Welsh Government to continue to consider *all* the levers available to us in Wales to combat the UK legislation and its impacts; the Police Bill conflicts with Wales's responsibilities, specifically including our human rights obligations under the Government of Wales Act as well as all the commitments enshrined in the Children and Young People's Rights Measure; the Wellbeing of Future Generations Act and our socio- economic duty
5. The Welsh Government ensures that guidance is created for social workers in supporting human rights and family justice focused welfare assessments.

Please contact us if you require additional information or to discuss further

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[drwy e-bost]

15 Chwefror 2022

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2021 ynghylch defnydd Comisiwn y Senedd o'r acronym 'BAME'.

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref 2021, fe wnaeth swyddogion y Comisiwn ymgynghori â rhwydwaith cydraddoldeb Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH) y Comisiwn ynghylch yr hyn y mae'n ei ffafrio. Mynegodd aelodau'r rhwydwaith nifer o safbwyntiau, a'r hyn yr oedd y rhwydwaith yn ei ffafrio yn gyffredinol oedd cadw'r acronym BAME. O ganlyniad i'ch llythyr, mae'r rhwydwaith wedi gweithio gyda thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn i ailedrych ar hyn.

Fe wnaeth Comisiwn y Senedd drafod y defnydd o'r acronym 'BAME' yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr. Trafododd y Comisiwn bapur a oedd yn nodi rhywfaint o'r ddadl ehangach ynghylch defnyddio'r acronym gan gydnabod ei bod yn anodd hoelio hanesion a diwylliannau cymhleth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn un ymadrodd neu acronym.



Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r Comisiwn yn:

- Cydnabod cyd-destun fel sbardun allweddol i ddefnyddio terminoleg a dewis bod yn benodol wrth ddefnyddio terminoleg lle bynnag y mae hynny'n bosibl;
- Os nad yw'n bosibl bod yn benodol, defnyddio'r term(au) cyfunol 'lleiafrif ethnig' a 'chymuned lleiafrifoedd ethnig' yn lle'r acronym a'r term cyfunol B.A.M.E.; ac
- Adolygu'r defnydd o derminoleg yn rheolaidd a monitro trafodaethau mewnol ac allanol.



Yn ogystal, cytunwyd y dylai swyddogion y Comisiwn gynnig cwrdd â'r Aelodau hynny o'r Senedd sydd o gefndir ethnig lleiafrifol i drafod y mater ymhellach, ac y dylai'r wybodaeth yr oedd y



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Contact@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Comisiynwyr wedi'i hystyried fod yn sail i sesiwn friffio ar gyfer Aelodau, gan ddechrau gyda chadeiryddion pwyllgorau.

Cytunodd y Comisiynwyr bod y canllawiau yn y papur yn cael eu cyhoeddi'n fewnol er mwyn helpu swyddogion y Comisiwn i ddrafftio dogfennau.

Bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod yr eitem ddydd Iau 17 Chwefror 2022.

Fe wyddoch fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgysylltu â'r broses ymgynghori drwy'r Arolwg Ymgysylltu â'r Aelodau, sy'n fyw ar hyn o bryd. Mae nifer o'r Aelodau wedi dweud y byddent yn croesawu trafodaeth bellach gyda swyddogion y Comisiwn, ac mae hyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, pe byddai [Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn credu y byddai sgwrs debyg yn ddefnyddiol, rhwch wybod i mi er mwyn i mi gael gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir



Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon